

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu
Corfforaethol

Dyddiad: 5 Gorffennaf 2018

Rhif Union: 01824706204

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 11 GORFFENNAF 2018 am 9.30 am yn YSTAFELL BWLLGOR 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 06 Mehefin 2018 (copi wedi ei amgáu).

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL UWCH-BERCHENNOG RISG GWYBODAETH
(Tudalennau 15 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (copi'n amgaeedig) sy'n manylu ar achosion o dorri'r Ddeddf Diogelu Data a chwynion yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

6 DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT (Tudalennau 29 - 162)

Ystyried adroddiad gan y Prif Gyfrifydd (copi ynghlwm) ar y Datganiad o Gyfrifon 2017/2018 drafft.

7 RHEOLI TRYSORLYS (Tudalennau 163 - 194)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid (copi ynghlwm) ar Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys.

8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 195 - 220)

Ystyried adroddiad gan y Prif Archwilydd Mewnol (copi wedi'i amgáu) yn rhoi gwybod i aelodau am gynnydd Archwilio Mewnol.

9 ARCHWILIAD MEWNOL O IECHYD A DIOGELWCH MEWN YSGOLION
(Tudalennau 221 - 236)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi manylion adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar lechyd a Diogelwch mewn Ysgolion a gafodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

10 ARWEINIAD YMARFEROL CIPFA - DIWEDDARIAD O GYNNYDD

Ystyried adroddiad diweddar ar lafar gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Barry Mellor ar arweiniad ymarferol CIPFA.

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL (Tudalennau 237 - 244)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth Aelodau i adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Cyngor ynglŷn â gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer blwyddyn 2017/18 y Cyngor.

12 SAC- TROSOLWG A CHRAFFU - ADDAS I'R DYFODOL? (Tudalennau 245 - 262)

Derbyn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru (copi wedi'i amgáu) ar y trosolwg a chraffu – addas i'r dyfodol? Ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych.

13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
(Tudalennau 263 - 268)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi wedi'i amgáu).

RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL

Dim

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Mabon ap Gwynfor
Tony Flynn
Martyn Holland

Alan James
Barry Mellor
Joe Welch

Aelod Lleyg

Paul Whitham

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORARTHOL

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mercher, 7 Chwefror 2018 am 1.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Tony Flynn, Martyn Holland (Vice-Chair), Alan James and Barry Mellor (Chair)

Aelod Lleyg Paul Whitham

Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Perfformiad Cyllid ac Asedau Strategol yn bresennol.

Arsylwr – Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd (GW), Prif Gyfrifydd (SG), Prif Archwilydd Mewnol (LL), Archwilydd Mewnol (BC), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KE), Prif Reolwr – Moderneiddio Addysg (GD), Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau (IL), Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (LJ), Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael (HM) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru - Gwilym Bury

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru, Anthony Veale a Michelle Phoenix.

2 PENODI CADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau i Aelod wasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Enwebodd y Cynghorydd Alan James y Cynghorydd Barry Mellor, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Martyn Holland. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill ac felly;

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Barry Mellor yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau i Aelod wasanaethu fel Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Enwebodd y Cynghorydd Barry Mellor y Cynghorydd Martyn Holland ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Alan James. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill ac felly;

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Martyn Holland yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

4 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr Martyn Holland, Tony Flynn, Mabon ap Gwynfor, a Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol ag eitem 7 ar y Rhaglen – canlyniadau Arolwg Estyn 2018 Sir Ddinbych, gan eu bod yn Llywodraethwyr ysgol.

5 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2018.

Eitem 9 - Adroddiad Blynyddol yr Adain Archwilio Mewnol – nododd yr Aelod Lleyg, Paul Witham, wall clericio. Dylai'r cofnodion ddarllen fel a ganlyn: 'Gofynnod yr Aelodau am sicrwydd bod enillion buddsoddiadau wedi cael eu harchwilio'.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel cofnod cywir.

7 DEILLIANNAU AROLWG ESTYN YN SIR DDINBYCH 2018

Cyflwynodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant, ganlyniadau Adroddiad Arolygu Estyn, Sir Ddinbych 2018 (a gylchredwyd yn flaenorol).

Arweiniodd y Pennaeth yr aelodau drwy'r adroddiad. Cyfeiriwyd at y broses arolygu gadarn a grymus, yn cynnwys y gwaith a gwblhaodd y swyddogion er mwyn cael gwybodaeth ac adroddiadau mewn paratoad at yr arolygiad. Datganodd y Pennaeth ei bod yn falch iawn gyda chanlyniad cyffredinol yr arolwg ac ategodd ei diolch a chanmoliaeth i holl swyddogion ac adrannau a gyfrannodd a chefnogodd y tîm yn ystod yr arolwg.

Cafodd y canlyniadau oedd wedi'u hasesu yn erbyn fframwaith arolwg newydd Estyn, eu hamlygu i'r aelodau o fewn yr adroddiad. Pwysleisiwyd mai Sir Ddinbych oedd un o'r unig ddau awdurdod i dderbyn ardderchog am arweinyddiaeth yn y rowndiau diwethaf o arolygon. Eglurodd y Pennaeth bod Estyn wedi cydnabod y cwmpawd moesol cryf a ddangoswyd yn Sir Ddinbych wrth ddarparu ar gyfer unigolion ifanc yn y sir. Yn dilyn uniad llwyddiannus rhwng Addysg a Gwasanaethau Plant, gofynnodd Estyn i swyddogion Sir Ddinbych gwblhau astudiaeth achos er mwyn dangos y broses a ddilynwyd i awdurdodau eraill. Ar y cyfan, mynegodd y Pennaeth bod yr arolwg wedi bod yn broses ddwys ond roedd y canlyniad yn gadarnhaol a gwerthfawr.

Yn ystod trafodaethau, codwyd y materion canlynol:

- Llongyfarchodd yr aelodau'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a'r swyddogion am ganlyniad rhagorol yr arolwg. Estynnwyd canmoliaeth i'r holl adrannau ynghlwm. Roedd yr aelodau'n falch bod Estyn wedi amlygu'r gwaith a wnaed a'r gwaith parhaus gan yr awdurdod i ymgysylltu ag ysgolion, rhieni ac unigolion ifanc.
- Monitro tu hwnt i'r Sir – Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant y cwblhawyd monitro plant mewn lleoliadau tu hwnt i'r Sir. Amlygodd yr arolwg y monitro o'r gwasanaethau a gomisiynir sy'n darparu gwasanaethau. Clywodd yr aelodau bod nifer cyfyngedig o ddarparwyr trydydd parti ar gael wrth ymchwilio i leoliadau tu hwnt i'r Sir. Fel awdurdod, lles a datblygiad y plentyn oedd y brif flaenoriaeth.
- Cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol – Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant bod cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol a arsylwyd yn uchel, gyda nifer o waharddiadau parhaol yn isel. Gweithiodd y swyddogion addysg gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r materion. Pwysleisiwyd bod perthynas gweithio da gydag ysgolion a phenaethiaid wedi'i sefydlu, a oedd yn creu perthynas weithio cadarnhaol er mwyn cael yr adnoddau a chanlyniadau gorau i blant Sir Ddinbych.
- Byddai trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r swyddog cyswllt i fynd i'r afael â phryderon a godwyd yn yr adroddiad arolygu. Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant bod gwaith wedi cael ei wneud i fonitro plant ifanc yn y sir neu y tu allan i'r sir ac roedd angen esboniadau pellach gan Estyn er mwyn deall yn union beth oedd sail eu canfyddiadau.
- Trefnwyd gwaith ar argymhellion yr ymchwiliad. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i ddadansoddi a'i ddatblygu trwy'r broses graffu i alluogi i dystiolaeth gael ei gyflwyno am y gwaith presennol a gyflawnir. Disgwylwyd i gynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r argymhellion gael ei ddatblygu ym mis Medi yn dilyn cyfarfod dilynol gydag aelod ymchwilio cysylltiol Estyn.
- Addysgu yn y Cartref – tynnwyd sylw at y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â dewis addysgu plant yn y cartref. Roedd perthnasoedd gwaith gyda gweithwyr proffesiynol eraill wedi cael eu harsyllu. Canmolodd y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant waith y swyddogion ac amlygwyd yn glir yn yr adroddiad bod gwaith yn y maes hwn yn gryfder penodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a'r swyddogion am yr adroddiad. Llongyfarchodd yr adran am y cynnydd a wnaed i sicrhau bod plant Sir Ddinbych yn derbyn yr addysg orau, gyda'r holl adnoddau ar gael iddynt. Roedd canlyniad yr arolwg yn adlewyrchiad o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a'r swyddogion a dylid eu canmol.

PENDERFYNWYD bod y *Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (PAM) adroddiad diweddarau'r Adain Archwilio Mewnol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan roi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau am gynnydd yr Adain Archwilio Mewnol o ran cyflwyniad ei wasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth hybu gwelliannau.

Darparodd yr adroddiad wybodaeth am waith yr Adain Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Aeth y PAM drwy'r adroddiadau gyda'r aelodau, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf hyd at fis Mai 2018 am:

- Cyflwynwyd adroddiadau archwilio mewnol yn ddiweddar h.y. Rheoli Prosiectau a Gwasanaeth Caffael ar y Cyd;
- Cynnydd o ran gwaith Archwilio Mewnol hyd yma yn 2018-19;
- Diweddariad bob chwarter ar Waith Gwrth-dwyll; a
- Diweddariad ar Berfformiad yr Adain Archwilio Mewnol yn erbyn y safonau gosod.

Trafodwyd y materion canlynol yn fanylach –

- Rheoli Prosiect – Mai 2018 – arweiniodd y Prif Archwilydd Mewnol aelodau drwy adolygiad o Reoli Prosiectau, esboniwyd fod yr adolygiad wedi cwmpasu trefniadau llywodraethu, rheoli risg, monitro ac adrodd am y prosiect. Datganodd y Prif Archwilydd Mewnol bod trefniadau llywodraethu Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif yn annigonol, amlygwyd bwlch yn y gwaith rheoli prosiectau. Roedd angen darparu arweiniad clir i reolwyr prosiectau ynglŷn â phryd y dylai adroddiadau gael eu huwchgwyfeirio er mwyn eu craffu. Byddai canlyniadau'r camau gweithredu a godwyd yn cael eu cyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Yn gyffredinol esboniodd y Prif Archwilydd Mewnol bod nifer o bethau cadarnhaol wedi cael eu harsyllu. Datganodd yr Aelod Lleyg, Paul Witham, ei fod yn falch o weld bod gwaith wedi cael ei gwblhau yn y maes hwn ac y gellid mabwysiadu gwersi mewn prosiectau yn y dyfodol. Datganodd bod rheoli prosiectau'n hanfodol wrth ddarparu safonau uchel ac fe gytunodd y Prif Archwilydd Mewnol â hynny.
- Gwasanaeth Caffael ar y Cyd – Mai 2018 – Eglurodd y PAM fod adroddiad manwl wedi'i gynnwys fel eitem ar y rhaglen yn nes ymlaen yn y cyfarfod, ac y byddai'r manylion yn cael eu trafod bryd hynny.
- Cynnydd o ran y Gwaith Gwrth-dwyll – Aeth y PAM drwy'r data gyda'r aelodau. Amlygwyd bod 5 atgyfeiriad wedi'u gwneud o 2018-19 hyd yma, a'u bod i gyd yn parhau. Eglurodd y PAM bod yr wybodaeth wedi'i chynnwys er mwyn dangos tryloywder, ac y bydd unrhyw ganlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r pwyllgor ar ôl cwblhau'r ymchwiliadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Adain Archwilio Mewnol am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad diweddar ac y bydd diweddariad ar Reoli Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor.

Ar y pwynt hwn (10.45am) cafwyd egwyl o 15 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.00am.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (PAM) Ganllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio 2018 (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn galluogi'r Aelodau i asesu eu hunain yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd a amlinellir yn yr adroddiad.

Cynigiodd y PAM y dylid sefydlu grŵp tasg o dri aelod, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, i ddadansoddi effeithiolrwydd y pwyllgor. Roedd y canllawiau CIPFA yn cynnwys hunanasesiad y gofynnod y PAM i'r aelodau ei gwblhau. Byddai canlyniad yr asesiad yn llunio sylfaen ar gyfer anghenion hyfforddi ac anghenion datblygu pellach yr aelodau.

Mynegodd y Cadeirydd ei fod yn cytuno gyda sefydlu grŵp tasg i gadarnhau anghenion a gwybodaeth. Roedd angen i'r rôl hanfodol a ddarparodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wrth graffu ar adroddiadau barhau i gyrraedd safon uchel. Gofynnod y Cadeirydd i'r aelodau gwblhau'r hunanasesiad er mwyn darparu sylfaen i'r grŵp tasg ehangu arno. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylid sefydlu grŵp tasg.

Trafododd yr Aelodau nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Esboniodd y Swyddog Monitro nad oedd unrhyw gyfyngiadau na chyfreithiau mewn lle i gyfyngu ar nifer aelodau etholedig ar y pwyllgor.

Byddai angen i'r Cyngor Sir gymeradwyo newid i'r cyfansoddiad er mwyn i caniatáu unrhyw newidiadau. Gellid ymchwilio hefyd i gynyddu'r nifer o Aelodau Lleyg sydd ar y Pwyllgor. Roedd y cyfyngiadau a'r rheolau blaenorol ynghylch pwy sy'n gymwys i fod ar y pwyllgor wedi cael eu dileu. Pwysleisiodd yr Aelod Lleyg, Paul Witham, mai Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Sir Ddinbych oedd un o'r rhai â'r niferoedd lleiaf o aelodau. Awgrymodd Paul Witham bod y pwyllgor yn ailedrych ar y cylch gorchwyl wrth gwblhau'r hunanasesiad.

Tynnodd y Swyddog Monitro sylw'r aelodau at y ffaith y byddai'r grŵp tasg a ffurfir yn asesu'r cylch gorchwyl yn ystod ei gyfarfod. Cytunodd yr aelodau mai'r Cadeirydd (y Cynghorydd Barry Mellor), yr Is-gadeirydd (y Cynghorydd Martyn Holland) a'r Cynghorydd Mabon ap Gwynfor fyddai'n ffurfio'r grŵp tasg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro a'r PAM am yr adroddiad a'r canllawiau. Atgoffodd yr aelodau i gwblhau'r hunanasesiad.

PENDERFYNWYD:

- *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi ei gynnwys;*
- *bod yr Aelodau'n cwblhau'r hunanasesiad ar sail templed CIPFA; a*
- *bod y Cynghorydd Barry Mellor, y Cynghorydd Martyn Holland a'r Cynghorydd Mabon ap Gwynfor yn ffurfio grŵp tasg i ddadansoddi effeithiolrwydd y pwyllgor ac unrhyw anghenion hyfforddi ychwanegol.*

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol (PAM) yr adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw), gan roi manylion i'r aelodau am yr adroddiad Archwilio Mewnol ar yr Uned Gaffael Gorfforaethol ar y Cyd, a oedd wedi cael sgôr sicrwydd 'Isel'.

Aeth yr Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, ynghyd â'r Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael a Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol, drwy'r adroddiad Archwilio gyda'r aelodau.

Croesawodd yr Aelod Arweiniol yr adroddiad, gan gydnabod y materion yr oedd yn eu codi. Aethpwyd i'r afael â gwaith i ddelio â materion llywodraethu, gyda rhagor o waith ar y gweill. Hysbyswyd yr aelodau bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer staff i godi proffil caffael a'r lefel uchel o ymrwymiad.

Cynigodd y Swyddog Monitro y dylid hysbysu'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth o'r adroddiad a'i ganfyddiadau. Rhoddodd y Swyddog Monitro wybodaeth gefndirol i'r aelodau ynglŷn â'r gwaith a oedd wedi'i wneud hyd yma, roedd hyn yn cynnwys penodi'r Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael. Canmolwyd yr holl waith a wnaed ers y penodiad i gael gweithdrefnau cadarn o ran caffael. Sicrhaodd y SM y pwyllgor y codwyd yr adroddiad archwilio a'i ganfyddiadau yn y cyfarfod Herio Gwasanaeth, a bod adroddiad gydag argymhellion am gael ei uwchgyfeirio.

Yn ystod y drafodaeth, bu i'r aelodau drafod y canlynol:

- Roedd raid i'r ddau awdurdod roi ar ddeall i wasanaethau bod angen prynu i mewn i waith yr uned gydweithrediadol. Roedd gwybodaeth a dealltwriaeth yn hanfodol er mwyn gwella buddiant. Cytunodd yr Aelodau nad oedd yr adroddiad yn dangos y canlyniadau posibl i gydweithredu ac roedd angen gwneud gwaith i ddatrys y problemau.
- Nid oedd y trefniant craffu pwnc a gweithio ar y cyd wedi bod yn ddigonol.
- Cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod y Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael wedi nodi'r gwaith yr oedd swyddogion wedi'i wneud i gynyddu proffil caffaeliad. Yn ei dro byddai hyn yn galluogi adrannau i gael gwybodaeth am yr uned a gweithio'n fwy effeithiol.
- Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y ddau awdurdod i sefydlu perthynas barhaus. Bu cyfathrebu tryloyw yn hanfodol er mwyn gweithio'n gadarnhaol yn y dyfodol.
- Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol bod cyfarfod wedi'i drefnu â Sir y Fflint i drafod cydweithio yn y dyfodol. Roedd gofyn am ddull cryfach o graffu gwaith a chanfyddiadau ar gam cynnar y caffael.
- Nododd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru bod angen sefydlu trefniadau craffu a llywodraethu o'r cychwyn cyntaf. Roedd gan yr awdurdod weithdrefnau ar gyfer craffu y dylid bod wedi'u dilyn i atal archwiliadau gwasanaethau rhag cael sgôr sicrwydd isel. Roedd angen monitro cydweithio o hyn ymlaen.

Gofynnodd Aelodau a fyddai modd cael adroddiad wedi'i ddiweddarau yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol er mwyn diweddarau'r pwyllgor am waith a gwblhawyd. Byddai hwn yn cynnwys unrhyw ddiweddariad a dderbyniwyd gan y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad archwilio tryloyw ac am y gyd-berthynas waith gyda Chyngor Sir y Fflint. Bu i'r Pwyllgor gydnabod y gwaith a wnaed, ond teimlai bod yr angen i fonitro trefniadau llywodraethu yn amlwg.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:

- I. yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi ei gynnwys ac
- II. yn cynnwys diweddariad ar yr Uned Gaffael ar y Cyd yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y pwyllgor.

11 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn amodol ar y diwygiadau canlynol:-

11 Gorffennaf 2018 -

- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y trefniadau Craffu.
- Diweddariad i ganllawiau CIPFA

21 Tachwedd 2018 –

- Adroddiad blynyddol ar y Cyfansoddiad (wedi'i aildefnu o gyfarfod 11 Gorffennaf)
- Diweddariad ar ddeilliannau Rheoli Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif (i'w gadarnhau)

Ionawr 2019-

- Diweddariad ar yr Uned Gaffael ar y Cyd

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:25 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: **11 Gorffennaf 2017**

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cyngorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol
Seilwaith Cymunedol
Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

Awdur yr Adroddiad: Alan Smith, Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth
(SIRO)

Teitl: **Adroddiad SIRO ar gyfer 2017/18**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018 ac yn rhoi manylion achosion o dorri'r ddeddf diogelu data gan y Cyngor sydd wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO - Pennaeth Moderneiddio a Gwella Busnes yng Nghyngor Sir Ddinbych). Mae hefyd yn ymdrin â chwynion am y Cyngor yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth sydd wedi cael eu cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am geisiadau Mynediad at Wybodaeth/ Rhyddid Gwybodaeth a wneir i'r Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Polisi Diogelu Data'r Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ganiatáu'r Aelodau i oruchwylio'r broses.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi gan y Pwyllgor.

4. Manylion yr Adroddiad

Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) â chyfrifoldeb penodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r deddfwriaeth. Mae'r systemau a gynlluniwyd i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu gwneud yn llwyddiannus yn dibynnu

ar dryloywder ac ar fod yn agored, felly mae'n arbennig o bwysig bod Aelodau'n cael trosolwg o'r broses.

4.1 Torri Rheolau Diogelu Data

Rwy'n falch o adrodd **na fu unrhyw achosion difrifol o dorri'r Ddeddf Diogelu Data yn y Cyngor yn ystod 2017/18**. Bu dau achos bychan o dorri'r Ddeddf fodd bynnag (y ddau yn Addysg). Sef:

- Anfonwyd e-bost at gyfeiriad e-bost anghywir
- Anfonwyd llythyr at y cyfeiriad anghywir

Ymchwiliwyd i'r ddau achos, ond ni ystyriwyd yr un o'r ddau yn ddigon difrifol i'w hadrodd wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Llynedd, gwnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth un argymhelliad, sef y dylem ddatblygu polisi ffurfiol ar gyfer staff sy'n mynd â data personol sy'n ymwneud â'u cleientiaid allan o'r swyddfa. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau a'i gytuno gan y CBYLL ac mae'n mynd i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar 31 Gorffennaf. Bydd angen gwaith er mwyn gweithredu'r polisi hwn ar draws y Cyngor, ond yn arbennig yn Gwasanaethau, lle maent yn dal i ddibynnu ar systemau papur.

4.1 Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Daeth y Rheoliadau Diogelu Data newydd i rym ar 25 Mai 2018. Mae'r rheoliadau newydd yn darparu fframwaith gyda mwy o gwmpas a chosbau mwy llym o lawer i'r rhai sy'n methu cydymffurfio â rheolau newydd o ran storio a thrin data personol.

Wrth i ofynion y rheoliadau newydd ddod yn gliriach, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio tuag at eu bodloni. Mae canolbwynt y gwaith hwn wedi bod ar ddogfen Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth "12 steps to take now", a gyhoeddwyd y llynedd.

Er mwyn cefnogi'r gwaith paratoi, sefydlwyd Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn ystod 2017 sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl wasanaethau. Yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth sy'n cadeirio'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth ac mae hefyd yn cynnwys Lisa Jones yn ei swydd fel Swyddog Diogelu Data. Mae'r Grŵp Llywodraethu Data wedi helpu i ddarparu fforwm er mwyn trafod y gofynion newydd a goruchwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Mae'r cynllun gweithredu a ddangosir yn Atodiad 1 yn darparu diweddariad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu ar amser ac wedi eu cwblhau. Mae ychydig o oedi wedi bod gyda'r canlynol:

- Datblygu Cofrestr Asedau Gwybodaeth gyflawn; ac
- Adolygu contractau i fodloni gofynion GDPR

Diffyg capasiti mewn rhai meysydd fu'r rheswm dros hyn gan mwyaf.

Gofynnwyd i'r Adain Archwilio Mewnol adolygu cydymffurfedd Diogelu Data mewn Gwasanaethau fel rhan o'u cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2018/19. Dylai hyn helpu i roi peth sicrwydd i'r Cyngor ar lefelau cydymffurfedd wrth symud ymlaen.

4.2 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Derbyniwyd cyfanswm o 1,367 o geisiadau yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'r ffigur hwn yn nodi cynnydd o 2% ers y llynedd, gyda nifer uwch o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, mae'n ymddangos bod lefel y ceisiadau Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn.

	Rhyddid Gwybodaeth	Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol	Cyfanswm (ac o fewn y terfyn amser)	Ceisiadau amrywiol	Cyfanswm terfynol (ac o fewn y terfyn amser)
14/15	880	127	1007	131	1138 (91%)
15/16	871	183	1054	182	1236 (93%)
16/17	955	128	1083 (95%)	248	1331 (96%)
17/18	1042	85	1127	240	1367 (95%)

Tabl 1: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd ar gyfer 2014/15 i 2017/18.

Roedd y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn canolbwyntio ar rai meysydd penodol yn fwy nag eraill ac fel o'r blaen, roeddent yn ymwneud â busnesau neu gan unigolion yn bennaf. Mae'r rhai a gyflwynodd ceisiadau amlaf dros y 12 mis diwethaf wedi'u nodi yn y tabl isod.

MATH O YMGEISYDD	NIFER Y CEISIADAU
Academaidd	21
AC/AS	95
Busnes	132
Elusen / Grŵp Lobi	86
Corfforaethol	1

Cynghorydd	4
Unigolyn	516
Cwmni Yswiriant	1
Awdurdod lleol	16
Y Cyfryngau	221
GIG	4
Arall	11
Cyfreithiwr	9

10 Ymholydd Uchaf dros y 12 mis diwethaf:

1	AC/AS	17
2	UNIGOLYN	15
3	AC/AS	14
4	AC/AS	12
5	AC/AS	11
6	Y CYFRYNGAU	8
7	UNIGOLYN	8
8	UNIGOLYN	8
9	Y CYFRYNGAU	7
10	UNIGOLYN	7

Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau am fynediad at wasanaeth eu herio gan yr ymholwr a chynhaliwyd adolygiad mewnol. Bu 13 o'r rhain dros y 12 mis diwethaf. DS Caiff unrhyw fynegiant o anfonlonrwydd gan ymholydd ei drin fel cais am adolygiad mewnol.

Cyfeiriwyd rhai adolygiadau mewnol, ac achosion cymhleth neu sensitif eraill, at y Panel Mynediad at Wybodaeth, a Gadeiriwyd gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd. Cyfarfu'r panel 5 gwaith yn ystod y flwyddyn ac adolygwyd 11 o achosion. Mae Atodiad 2 yn rhestr o'r rhain, ynghyd â chanlyniad pob adolygiad.

Yn 2017/18, ni ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i unrhyw gwynion am y Cyngor o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Dylid nodi fod rheoli ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Diogelu Data yn parhau i gyflwyno cost o ran adnoddau i'r Cyngor, gyda swyddog yn gwneud hyn yn llawn-amser. Yn ogystal, darparwyd gwaith sylweddol o fewn y Gwasanaethau gan y Swyddogion Rheoli Gwybodaeth, sy'n darparu atebion manwl ar gyfer pob cwestiwn. Er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn llwyth gwaith, mae 95% o'r ceisiadau wedi'u datrys o fewn y gofyniad deddfwriaethol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?
Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi amcan y Cyngor i foderneiddio, ond nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â blaenoriaeth gorfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?
Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?
Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?
Amherthnasol

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid
Dim angen

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?
Er taw er gwybodaeth yn unig mae'r adroddiad hwn, byddai risg i'r Cyngor pe na fyddai systemau rheoli gwybodaeth a diogelu data yn cael eu cynnal. Mae trosolwg gan Bwyllgor yn elfen bwysig o sicrhau bod ein systemau yn effeithiol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad
Nid oes angen penderfyniad.

APPENDIX 1 - GDPR ACTION PLAN

REQUIREMENT	TASK	START DATE	END DATE	LEAD OFFICER(s)	PROGRESS	Status
Establish a record of personal data processing activities Article 30	Create an information assets register (IAR) and circulate to services	October 2017	May 2018	Kerry Standen	Received responses from most services and they have been incorporated into Register.	In-progress
	Publish IAR as a central record. Services to update when changes occur.	Feb 2018	May 2018	Kerry Standen		Complete
Ensure all staff, Members and suppliers are	Develop a Communications Plan	March 2018	March 2018	Craig Berry	Complete and was agreed at IGG meeting in March.	Complete

aware of GDPR and our new obligations.	Develop E-learning module for all office-based staff, schools staff and Members to complete.	March 2018	May 2018	Craig Berry	E-learning module developed and launched on 21 st May ICT videos also available on intranet.	Completed
	Develop a factsheet for non-office based staff.	March 2018	May 2018	Craig Berry	Completed.	Completed
	Develop a schedule of classroom based sessions for more in-depth training	June 2018		Craig Berry	To be scheduled.	In-progress
Assign DP Officer role Articles 37-39	DP Officer role agreed – Lisa Jones	December 2017	December 2017	SLT	Agreed that Lisa Jones would continue as DCC's DP Officer.	Complete
The Council must have GDPR compliant Privacy Notices	Produce guidance / template on GDPR compliant privacy notices	Jan 2018	March 2018	Craig Berry	Draft guidance developed. Shared with IGG for comments.	Complete

Articles 13 & 14					Published on intranet	
	Services to identify and amend their Privacy Notices based on guidance provided	March 2018		All Services	Services to amend privacy notices using guidance provided. Requirement to amend privacy notices has been included in E-learning module.	In progress
	Update main privacy Notice on website	May 2018	May 2018	Craig Berry	Draft developed and approved by Legal.	Complete
Legal Requirement for Data Protection Impact Assessments (DPIA) to be undertaken for high-risk activities	Raise awareness of the need to undertake DPIA for high risk activities	Jan 2018	May 2018	Craig Berry	Requirement included in ELearning module.	Complete
	Develop a DPIA template and incorporate into DCC's Impact Assessment site	Jan 2018	May 2018	Craig Berry	Template developed as part of regional workings. Has been incorporated into impact assessment framework. Launched 28 th May.	Complete
Article 35						

	Agree a process for reviewing DPIAs.	April 2018	April 2018	Craig Berry and Lisa Jones	Agreed with Lisa Jones and Alan Smith that DPIAs with a residual high risk status would be referred onto them for consideration.	Complete
Where a processor is used to process personal data, a legally binding contract needs to be in place. Articles 28-36	Identify existing contracts involving processing of personal data	February 2018		Helen Makin	<p>Only limited number of contracts are known about and held centrally. Information on these contracts has been circulated to IGG members.</p> <p>Many contracts/arrangements with data processors are not held centrally and are in services.</p> <p>Service asked to send contracts and agreements to Legal to scrutinise.</p>	In progress
	Legal to review contracts and issue	February 2018		Helen Makin	Being undertaken by Helen Makin.	In-progress

	contract variations, where applicable.					
	For new suppliers – amend standard T&C’s and procurement process to include guarantees that suppliers can comply with new data protection requirements	April 2018	May 2018	Helen Makin	New Ts & Cs developed and incorporated into procurement process.	Complete
Ensure personal data is kept for no longer than necessary	Raise awareness of retention schedule in areas where there is uncertainty on retention rules.	Jan 2018		Craig Berry	On-going	In progress
Article 17	Make Schedule more user-friendly	Dec 2017	May 2018	Craig Berry	New more user-friendly format for Retention Schedule published	Complete
	Retention rules incorporated into emails	Feb 2018	Dec 2018		Retention policies to be agreed with IGG and SLT.	In progress

					Draft proposals shared with IGG for comments.	
Mandatory requirement to inform ICO of serious breaches Articles 33 & 34	Raise awareness across Council of the legal requirement to inform ICO and data subjects of serious breaches.	April 2018	May 2018	Craig Berry	To be included in ELearning, which will be launched in May.	In progress
Data Subjects Rights	Amend SAR process to take into account changes in timescales and fees.	May 2018	May 2018	Kerry	Changes incorporated into SAR process and database.	Complete
Insurance and compensation	Arrange appropriate insurance to cover costs for fines and personal claims	Feb 2018	March 2018	Craig	Checked with Chris Jones. Fines are paid for by Council. Claims paid for by insurance.	Complete

Appendix 2 – Panel Meetings 2017/18

Date	Issue	Case Ref	Exemption Claimed	Stage of request	Outcome
07/04/17	Access to notes relating to school amalgamation	1830/2107	Section 1(not held)	Internal Review	Requestor directed to school.
07/04/17	Access to submissions for Band B funding	2022/2099	Section 22 (intended for future publication)	Internal Review	Section 22 upheld
02/05/17	Multiple Planning histories requested	2174	Publically available/Charged search/EIR burden	First response	Publically available. Nearing vexatiousness. Invited requester to view.
02/05/17	DP Case	None	Vexatious	multiple emails	Consents to be sought.
02/05/17	ICO Decision re Credit Balances	None	S31	None	Will not apply decision to DCC as circumstances different
09/08/17	Subject Access Request	DP 2477	Disproportionate effort	First response	Asked for fee and clarification again. Final outcome - documents were sent, however borderline disproportionateness.
09/08/17	Request for address list to create App	2530/2617	S21	internal review	Appeal Successful - disclosed the info as Ordnance Survey failed to respond to expressed concerns about confidentiality of data.
07/12/17	Repeat Requester Also	Multiple	Data Protection	Data Protection cases	Consents to be explored again

	see Panel 02/05/2017				
07/12/17	Multiple Requests 2477 etc again	Multiple	DP - disproportionate FOI vexatious	Post DP and current FOIs	S14 for FOI and DP disproportionate
18/12/17	Information relating to possible Criminal Investigation	FOI 3070	S30/S31	First response	31 (1) (g) the exercise by any public authority of its functions for any of the purposes specified in subsection (2)31 – (2)(b) the purpose of ascertaining whether any person is responsible for any conduct which is improper. Extension for consideration of PI test
18/12/17	Land Sale	EIR 3133	Complete non- disclosure	First response	EIR 12 (4) (e) internal, EIR 12 (5) (d) confidential proceedings
18/12/17	Land Sale	EIR 3141	Complete non- disclosure	First response	EIR 12 (4) (e) internal, EIR 12 (5) (d) confidential proceedings, EIR 12 (5) (e) commercial

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	11 Gorffennaf 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh (Pennaeth Cyllid)
Awdur yr Adroddiad:	Steve Gadd, Prif Gyfrifydd
Teitl:	Datganiad Drafft o Gyfrifon 2017/18

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Darparu trosolwg o'r Datganiad drafft o Gyfrifon 2017/18 a'r broses sy'n sail iddo.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo i gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig a fydd yn cael eu cyflwyno ar 26 Medi 2018. Mae cyflwyno'r cyfrifon drafft yn rhoi arwydd cynnar o sefyllfa ariannol y cyngor a gall dynnu sylw at unrhyw broblemau yn y cyfrifon neu'r broses cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Nodi'r sefyllfa fel y'i cyflwynir yn y cyfrifon drafft (gweler Atodiad 1).

4. **Manylion yr Adroddiad**

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i baratoi datganiad o gyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y Cyngor. Mae'r rôl hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cyfrifon drafft bellach wedi eu cwblhau ac wedi'u llofnodi gan y Pennaeth Cyllid ar 15 Mehefin (gan fodloni'r dyddiad dros dro ar gyfer cau cynnar a fydd yn orfodol y flwyddyn nesaf). Mae'r cyfrifon drafft ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn a byddan nhw ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio rhwng 9 Gorffennaf a 3 Awst.

O ystyried rôl y Pwyllgor o ran cymeradwyo'r cyfrifon terfynol, mae'n fanteisiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg ar y cam drafft i'w ystyried cyn cyflwyno'r cyfrifon terfynol ym mis Medi.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cyhoeddi Datganiad o Gyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**
Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.
- 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?**
Caiff gweithdrefnau a phrosesau'r cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei llunio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.
- 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu cyfrifon yn gadarn.
- 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Byddai'r Cyngor yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.
- 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

DATGANIAD CYFRIFON 2017/18

Cyngor Sir Ddinbych
Datganiad Cyfrifon
2017/18

Cyflwyniad	1
Adran 1 - Adroddiad Naratif	4
Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau	11
Adran 3: Datganiadau Ariannol A Nodiadau Ynglŷn Â'r Cyfrifon	12
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	15
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	18
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn	20
Y Fantolen	22
Datganiad Llif Arian.....	24
Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon	25
Adran 4: Datganiadau Atodol.....	95
Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai	96
Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai	97
Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Atodol.....	98
Adran 5: Adroddiad archwilio arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych	101
Adran 6: Asesiad Llywodraethu a Gwella Blynyddol 2017-18.....	102
Adran 7: Geirfa.....	124

Cyflwyniad

Awdurdod unedol yng Nghymru yw Cyngor Sir Ddinbych gyda phoblogaeth o tua 96,000. Mae Sir Ddinbych yn cynnwys cyrchfannau gwyliau'r Rhyl a Phrestatyn ar hyd arfordir gogledd Cymru, Dyffryn Clwyd, Corwen yn ne'r Sir a thref Llangollen, sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid. Mae hefyd yn cynnwys trefi castellog hanesyddol Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun, a dinas gadeiriol fechan Llanellwyr. Mae 47 o gynghorwyr etholedig i gynrychioli amrywiol wardiau'r sir. Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 4,500 o staff.

Daeth y Cyngor Sir i fodolaeth ym mis Ebrill 1996 ac mae'n gyfrifol am ystod fawr o wasanaethau gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, priffyrdd, casglu a gwaredu gwastraff, cynllunio, datblygu economaidd, twristiaeth, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a llawer yn rhagor.

Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac sy'n dangos ar be y gwariodd y Cyngor ei arian. Mae'r cyfrifon hyn yn mynd yn fwyfwy technegol ac yn anos eu deall. Pwrpas y Cyflwyniad yn yr adran nesaf yw ceisio cyflwyno rhai o'r rhifau mwyaf pwysig mewn dull mwy dealladwy.

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyfrifon, byddai croeso i chi gysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ. Yn ogystal, mae gennych hawl gyfreithiol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebiri argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac yn y dderbynfa yn Neuadd Y Sir, Rhuthun.

Datganiad Cyfrifon

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn yn unol â gofynion cyfreithiol, safonau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Cod) yn y Deyrnas Unedig, gyda'r amcanion canlynol:

- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol.
- Rhoi gwybodaeth ynglŷn â chyllid y Cyngor i ddefnyddwyr gwasanaeth, etholwyr, trethdalwyr busnes, trethdalwyr lleol, Cynghorwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.
- Dangos stiwardiaeth o arian cyhoeddus

Yn dilyn adolygiad "Dweud y Stori" o'r cyflwyniad o ddatganiadau ariannol awdurdodau lleol mae Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2017/18 CIPFA (y Cod) wedi newid y trefniadau adrodd cylchrannol ar gyfer y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DI&GC) a chyflwynwyd y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu. Mae'r DI&GC a'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn cynnwys dadansoddiad cychrannol yn seiliedig ar sut mae'r Cyngor wedi ei strwythuro, yn gweithredu, yn monitro ac yn rheoli perfformiad ariannol. Yn flaenorol, adroddodd y Cyngor cost gwasanaethau unigol yn y DI&GC yn unol â'r fformat a nodir yn y Cod Ymarfer Adroddiadau Gwasanaeth (SerCOP).

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

Adran 1 – Adroddiad Naratif

Mae'r Rhagymadrodd hwn gan y Prif Swyddog Cyllid yn darparu crynodeb o weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn.

Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau

Mae hyn yn amlinellu dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyllid wrth baratoi'r cyfrifon, a chyfrifoldebau'r Cyngor wrth gadw at y rheoliadau perthnasol.

Adran 3 – Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau ynglŷn â'r Cyfrifon

Mae Cod 2017 yn mynnu fod cyfrifon awdurdod lleol yn cydymffurfio gyda'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys:

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu

Mae hyn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio ac ariannu o adnoddau mewn cymhariaeth â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae hyn yn dangos yr addasiadau a wnaed i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i gyflawni gofynion cyfrifeg statudol, i'w alinio gyda'r sail gyfrifyddol y seiliwyd y lefel Treth y Cyngor am y flwyddyn arni.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r cyfrif hwn yn grynodedb o'r arian a gynhyrchwyd ac a wariwyd wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth reoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys pob gwariant beunyddiol ac incwm perthynol ar sail groniodol, ynghyd â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau a dreuliwyd mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn dangos amcanestyniad o werth y buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.

Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn rhoi ciplun o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2018. Mae'n amlinellu gwerth yr eitemau y mae'n berchen arnynt (asedau) a gwerth yr hyn sy'n ddyledus i eraill (ymrwymadau). Mae' ymgorffori holl gyllid y Cyngor, o ran cyfalaf a refeniw.

Datganiad Llif Arian

Mae hyn yn rhoi crynodeb ynglŷn ag arian parod y Cyngor a thrafodion sy'n gyfwerth ag arian parod dros y flwyddyn, gan ddangos yr union arian parod a dderbyniwyd ac a wariwyd a'r newid a fu yn sefyllfa'r Cyngor o safbwynt arian parod.

Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon

Darperir nodiadau eglurhaol ar ôl y prif ddatganiadau ariannol ac ar ôl y datganiadau ariannol atodol. Mae'r nodiadau yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i roi cymorth er mwyn deall y cyfrifon.

Adran 4 - Datganiadau Ariannol Atodol a Nodiadau**Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**

Mae gofyn ar i Gynghorau gyfrifo costau gwasanaeth tai'r cyngor ar wahân trwy gyfrwng Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r cyfrif hwn yn dangos ymhle y caiff arian ei wario'n cynnal ac yn rheoli tai'r cyngor a sut y cyfarfyddir â'r costau hyn gyda rhenti ac incwm arall.

Mae'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym Malansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn dod â'r holl symudiadau o fewn cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai ynghyd.

Adran 5 - Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Mae'r cyfrifon hyn yn amodol ar archwiliad allanol annibynnol gan archwilydd a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'r adroddiad hwnnw wedi ei gynnwys yn yr adran hon.

Adran 6 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae hyn yn amlinellu dull gweithredu'r Cyngor wrth sicrhau ei fod yn cynnal system effeithiol o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol.

Adran 7 - Geirfa

Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o rai o'r diffiniadau a fabwysiedir at ddiben cyfrifon a gwblheir yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Adran 1 - Adroddiad Naratif**1.1 Adolygiad Y Flwyddyn – Gwariant Refeniw**

Bydd y Cyngor yn sefydlu cyllideb refeniw pob blwyddyn. Mae hon yn gyllideb ar gyfer y gwasanaethau y bydd yn eu darparu yn ystod y flwyddyn ac a fydd yn cael eu hariannu gan ddefnyddwyr gwasanaeth, Grantiau Llywodraeth Cymru a Threth y Cyngor a Threthdalwyr Busnes. Ar gyfer 2017/18, y gyllideb gwariant gros oedd £296.5m. Ar ôl defnydd cyllidebol o Gronfeydd wrth Gefn, roedd yn ofynnol i gael arbedion o £2.3m a nodwyd rhain yn llwyddiannus i sicrhau cyllideb gytbwys. Cyflawnwyd yr holl arbedion a nodwyd yn ystod 2017/18. Mae'r Cyngor wedi nodi arbedion cyllideb o £24.8m yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac mae'n debygol o orfod gwneud arbedion o dros £16m yn ystod y tair blynedd nesaf.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Cyngor wedi gwario £1.1m llai nag yr oedd wedi cyllidebu ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol. Er ei fod yn parhau i fod yn gyfnod ariannol anodd i ysgolion, mae buddsoddiad mewn cyllidebau ysgolion yn 2017/18, sy'n fwy na phwysau chwyddiant a ariennir a'r berthynas waith agos rhwng y Cyngor ac ysgolion wrth gynhyrchu cynlluniau ariannol 3 blynedd cadarn, wedi arwain at sefyllfa ariannol well ar gyfer ysgolion (adroddodd ysgolion tanwariant o £0.713m yn ystod y flwyddyn).

Cymeradwyodd y Cabinet ym mis Mehefin ceisiadau gan y gwasanaethau i gario ymlaen tanwariant o £0.406m. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i helpu i liniaru'r pwysau hysbys a darparu arian ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau.

Balansau, Darpariaethau a Chronfeydd Wrth Gefn

Mae'r cyfraniad net i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn y cyfrifon yn £0.2m (gweler Nodyn 20 am fanylion). Mae'r symudiad yn cynnwys gostyngiad net o falensau diffyg ysgolion a'r defnydd a gyllidwyd ac arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ar gyfer dibenion fel ariannu'r Cynllun Cyfalaf yn Cynllun Corfforaethol newydd a lliniaru cyllidebau. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys cynnal a chadw cronfeydd wrth gefn penodol i helpu ariannu pwysau mewn gofal cymdeithasol ac i helpu i leihau effeithiau gostyngiad yn y gyllideb yn y dyfodol.

Balansau cyffredinol y Cyngor erbyn hyn yw £7.1m. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr ei fod yn cadw digon o arian yn y balansau hyn i fod yn siŵr y gall ymdrin ag unrhyw broblemau annisgwyl y bydd yn eu hwynebu.

Mae manylion yr holl ddarpariaethau a chronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys yn y Nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon.

Sut Rydym yn Rhoi Gwybod am ein Cyllideb

Bob mis, bydd adroddiad cyllideb yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor (grŵp o 8 o Gynghorwyr sy'n gwneud nifer o benderfyniadau ar ran y Cyngor) sy'n esbonio sut y mae gwasanaethau yn gwario eu harian o'i gymharu â'u cyllideb. Ar ddiwedd y flwyddyn, bydd adroddiad terfynol (a elwir yn ganlyniad) yn dangos y sefyllfa diwedd blwyddyn.

Ond, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu ei Ddatganiad Cyfrifon mewn modd sy'n diwallu gofynion rhoi gwybod ariannol y DU a rhyngwladol. Yn anffodus, mae'r gofynion hyn yn gymhleth iawn ac yn dechnegol eu natur. Mae hyn yn golygu bod angen nifer o addasiadau cyfrifo ar gyfer yr adroddiadau cyllideb arferol i sicrhau y gall y Cyngor gynhyrchu ei Gyfrifon. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa derfynol y rhoddyd gwybod i'r Cynghorwyr amdani. Yn

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg ac yn cael eu cario ar gost wedi'u hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd log effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgownt o'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Mae'r enillion a cholledion ar adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu'n digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu yn ôl eu trefn o gost wedi'i amorteiddio y benthyciad newydd neu'n un wedi'i addasu, ac mae'r ysgrifennu i lawr i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd log effeithiol.

Lle mae premiymau neu ddisgowntiau wedi cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r gollod dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu. Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu i ddau fath:

- benthyciadau a symiau derbyniadwy – asedau gyda thaliadau sy'n sefydlog neu wedi'u penderfynu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedion sy'n barod i'w gwerthu – asedau gyda phris wedi'i ddyfynnu ar y farchnad a/neu ddim gyda thaliadau sefydlog neu wedi'u penderfynu

Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy

Cydnabyddir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Maent yn cael eu mesur wedyn ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer yr holl fenthyciadau mae'r Cyngor wedi'i wneud, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ddyledus ac yn dderbyniadwy (ynghyd â llog cronedig) a'r llog sydd wedi'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a dderbynnir ar gyfer y flwyddyn yn y cytundeb benthyciad.

Pan amharwyd ar asedau oherwydd y tebygolrwydd sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a thâl yn cael ei godi ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw) neu'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hwn. Mae colled yr amhariad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd log wreiddiol yr ased.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ddatgydnabod yr ased yn cael ei gredydu neu ei ddebydu i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Benthyciad Meddal

Mae benthyciad meddal yn fenthyciad y mae'r Cyngor wedi'i roi i gorff allanol am gyfradd llog sy'n is na chyfradd y farchnad. Yn yr achos hwn, mae angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Fodd bynnag, os ystyrir bod maint y trafodyn yn de-minimis, nid oes angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Mae'r Cyngor wedi gosod y lefel de-minimis hon am £150k ar gyfer bob benthyciad unigol a roddir, neu lle nad yw'r addasiad gwerth teg yn faterol.

x. Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau

Os ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti a rhoddion yn cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor pan mae sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u hatodi i'r taliadau
- y derbynir y grant neu'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Amodiad yw'r amodau sy'n nodi bod y manteision economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased a gafwyd drwy ddefnyddio'r grant neu gyfraniad sy'n gorfod cael ei ddefnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu bydd yn rhaid dychwelyd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddwyd fel blaendal fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwr. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad ydyw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

xi. Asedau Treftadaeth**Asedau Treftadaeth Diriaethol ac Anniriaethol (disgrifir yn y crynodeb hwn o bolisiau cyfrifo sylweddol fel Asedau Treftadaeth)**

Cedwir Asedau Treftadaeth y Cyngor mewn nifer o safleoedd, gan gynnwys Amgueddfa'r Rhyl (o fewn Llyfrgell y Rhyl). Nantclwyd Y Dre, Carchar Rhuthun a Phlas Newydd sydd gan gasgliadau parhaol, ond hefyd mae'r adeiladau eu hunain yn cael eu trin fel Asedau Treftadaeth. Mae pob safle (ac eithrio Nantclwyd Y Dre) yn cael eu hachredu o dan gynllyun Achredu Amgueddfeydd Cyngor Celfyddydau Lloegr. Mae cofadail rhestredig, Castell Dinas Brân, hefyd yn Sir Ddinbych.

Cedwir casgliadau o Asedau Treftadaeth i gefnogi prif amcan amgueddfeydd y Cyngor h.y. gofalu am dreftadaeth Sir Ddinbych, ei gwneud yn hygyrch i bawb drwy ysbrydoli, dysgu a mwynhau.

Cydnabyddir Asedau Treftadaeth a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbriso) yn unol â pholisiau cyfrifo'r Cyngor ar eiddo, cyfarpar ac offer. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheolau mesur wedi'u llacio mewn perthynas ag Asedau Treftadaeth wrth i'r Cyngor ystyried y byddai cael prisiadau ar gyfer casgliadau yn cynnwys cost anghyfartal o'i gymharu â'r buddion a ddarperir i ddefnyddwyr datganiadau ariannol. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau a gedwir a'r diffyg mewn gwerthoedd tebyg. Mae'r casgliadau'n gymharol sefydlog ac nid oes unrhyw gaffaeliadau diweddar neu roddion.

Mae'r holl waith gofalu am gasgliadau yn cydymffurfio â safonau Comisiynu Amgueddfeydd a Galerïau. Ystyrir oes asedau'r casgliadau yn amhenodol oherwydd gwaith ataliol a gynhaliwyd gan Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych, ac oherwydd natur yr eitemau dan sylw. Felly nid ydyw'n addas newid y dibrisiad.

Mae'r Cyngor yn cadw at ganllawiau Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar waredu.

xii. Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent a/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

Mesurir eiddo buddsoddi ar y dechrau ar sail cost ac yn ddiweddarach ar sail gwerth teg, sef y pris a fuddai'n cael ei dderbyn i werthu ased o'r fath mewn trafodiad drefnus rhwng cyfranogwyr farchnad ar y dyddiad mesur. Fel ased heb ei hariannu, mesurwyd adeiladau buddsoddi ar y defnydd uchaf a'r gorau. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond fe'u hadbrisir yn flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae unrhyw enillion neu golledion yn cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn berthnasol i enillion a cholledion ar waredu.

Mae lefel gwariant de-minimis o £30k wedi'i osod ar gyfer eiddo buddsoddi, felly bydd unrhyw wariant is ddim yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Lle caiff ased ei ailbriso o dan £30k, bydd unrhyw wariant cysylltiedig a dibrisiad fel arfer yn cael ei ysgrifennu allan a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mae rhent a dderbynnir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn cael ei gredu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd

bynag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrizio a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £10,000), i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

xiii. Prydlesau

Caiff prydlesau eu dosbarthu fel prydlesau cyllid, lle bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol pob risg a gwobr sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, peiriannau neu offer gan y prydleswr i'r prydlesai. Caiff pob prydles arall ei dosbarthu fel prydles weithredu.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladu, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl eu cyfrif dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Prydlesai

Prydlesau Ariannol

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol taliadau isafswm y brydles, os ydynt yn is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei baru gan ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Caiff costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor eu hychwanegu at swm cludo'r ased. Caiff premiymau a delir wrth ddechrau prydles eu rhoi wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles. Caiff rhenti amodol eu nodi fel treuliau yn y cyfnodau perthnasol.

Caiff taliadau prydlesau eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles, a
- thâl cyllid (caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir dan brydlesau ariannol eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisiâu a ddefnyddir yn gyffredinol gydag asedau o'r fath, yn amodol ar godi tâl dibrisio dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol a amcangyfrifir yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu dibrisiad neu ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth sy'n codi ar asedau ar brydles. Yn hytrach, gwneir cyfraniad doeth blynyddol o gyllid refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor, drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredu

Caiff rhent a delir dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost y gwasanaethau sy'n manteisio ar ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer ar brydles.

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesau Ariannol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu beiriannau neu offer, caiff yr ased perthnasol ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau neu Offer neu Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei ddiddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu), wedi' baru gan ased prydles (dyledwr hirdymor) ar y Fantolen.

Caiff rhent prydlesau derbyniadwy eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer - fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles yn gynnwys unrhyw breimymau a dderbyniwyd, a
- incwm cyllid (caiff ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaiff yr enilliad a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth ei waredu ei ganiatáu drwy statud i gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae angen ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi'i dderbyn, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan gaiff y swm dyledus o ran ased y brydles ei setlo gan daliad rhent mewn blynyddoedd ariannol y dyfodol, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir rhent y dyfodol, defnyddir yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr dyledwr y brydles. Yn y cam hwn, caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol yn cael eu talu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesau Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu beiriant neu offer, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Caiff incwm rhentu ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

xiv. Refeniw Anghyfnewid**Cydnabod Refeniw o Drafodion Anghyfnewid**

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion anghyfnewid eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 Cyfrifo Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ar wahân i pan gânt eu dehongli neu eu haddasu i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus fel y cânt eu hegluro yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnewid (Trethi a Throsglwyddiadau)

Trafodion trethi

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trethi eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r digwyddiad trethadwy'n digwydd, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni diffiniad ased ac yn bodloni meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

Trafodion anhrethadwy

Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod y bydd y trefniad trosglwyddo yn rhwymo. Ni chaiff gwasanaethau mewn nwyddau eu cydnabod.

Pan fo trosglwyddiad yn amodol ar amodau sy'n golygu bod angen dychwelyd yr adnoddau a drosglwyddwyd os na chânt eu bodloni, bydd yr awdurdod yn cydnabod dyled nes i'r amod gael ei fodloni.

Sail Mesur Dosbarthiadau Refeniw Mawr o Drafodion Anghyfnewid

Caiff refeniw trethu ei fesur ar werth enwol arian parod, a chywerthoedd arian parod.

Caiff asedau a refeniw a gydnabyddir o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur ar werth teg yr asedau a gydnabyddir ar ddyddiad y cydnabod:

- Caiff asedau ariannol eu mesur ar eu gwerth enwol oni bai bo gwerth amser arian yn berthnasol, a phryd hynny, defnyddir gwerth presennol, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ostyngol sy'n adlewyrchu'r risg cynhenid o gadw'r ased; a
- Caiff asedau anariannol eu mesur ar eu gwerth teg, a bennir drwy gyfeirio at werthoedd arsylladwy'r farchnad neu drwy arfarniad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod pan fo trefniant trosglwyddo sy'n rhwymo ar waith ond nad yw arian parod neu asedau eraill wedi'u derbyn.

xv. Addasiadau Cyfnodau Blaenorol, Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo eu cyfrif yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i bolisiau cyfrifo oni bai bo angen drwy arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio bob amser.

Caiff gwallau materol yn ffigurau'r cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

xvi. Eiddo, Peiriannau ac Offer

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac y'u cedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cydnabyddiaeth

Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail cronïadau, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial y gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu ato (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel gwariant pan fydd yn digwydd.

Mae lefel gwariant de-minimis o £30k wedi'i osod ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer, felly bydd unrhyw wariant is ddim yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Lle caiff ased ei ailbriso o dan £30k, bydd unrhyw wariant cysylltiedig a dibrisiad fel arfer yn cael ei ysgrifennu allan a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mesuriad

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, gan gynnwys:

- pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu
- amcangyfrif cychwynnol costau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae wedi'i leoli arno.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ddaw tra bo asedau yn cael eu hadeiladu.

Bennir bod cost asedau a gaffaelir ar wahân i'w prynu yn werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan fo ased yn cael ei gaffael drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cludo'r ased a roddir gan y Cyngor.

Yna caiff asedau eu cludo yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol dibrisiedig
- anheddau – gwerth cyfredol, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol
- pob ased arall – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol).

Pan nad oes tystiolaeth o'r farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir costau amnewid dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth cyfredol.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo, oes ddefnyddiol fyr neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol.

Mae adbriso dilynol o ran asedau anghyfredol wedi'u cynllunio fel rhan o asesiad parhaus er mwyn i bob ased gael ei adbriso cyn pen pum mlynedd o'i brisiad blaenorol, er y bydd

newidiadau materol i brisiad asedau yn cael eu haddasu yn y cyfnod dros dro wrth iddynt ddigwydd. Ail-brisiwyd 100% o'r Tai Cyngor yn ystod 2017/18. Caiff cynnydd o ran prisiadau eu paru gan gredydau i'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i gydnabod enillion na wireddwyd. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi o wrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth o'r blaen. Pan nodir lleihad o ran gwerth, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn yn cynnwys enillion adbriso a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae enillion a godwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Amhariad

Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai amhariad fod ar ased. Pan fo arwyddion yn bodoli a phan amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif, a phan fo hyn yn llai na swm cludo'r ased, caiff swm amhariad ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbriso ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff colled amhariad ei wrthdroi o ganlyniad, caiff y gwrthdroi ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiad a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydabod.

Dibrisiad

Darperir ar gyfer dibrisiad ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gan ddyraniad systematig eu symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol feidraidd y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliad ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiad ar y sail ganlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill - dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, dodrefn ac offer – dull llinell syth
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros 40 mlynedd.

Cydrannu

Mae'n bolisi gan y Cyngor lle mae eitem faterol o eiddo, peiriannau ac offer gyda chydrannau mawr ble mae'r gost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm costau'r eitem, mae'r cydrannau yn cael eu dibrisio ar wahân; mae'r gofynion yn berthnasol at wariant gwella a dynnir, gwariant caffael a dynnir, ac ailbrisiadau a wnaed. Mae lefel perthnasedd de-minimis o £2.5miliwn o werth yr ased wedi ei osod. Os yn llai, ni fydd eitemau unigol o eiddo, periannau ac offer yn cael eu hystyried ar gyfer cydrannu; bydd elfennau arwyddocaol yn cael eu hystyried fel rhai y mae eu cost gyfredol yn 20% neu fwy o gyfanswm cost gyfredol yr ased, a'u categoraiddio fel a ganlyn yn seiliedig ar arwyddocâd, bywyd defnyddiol a dull dibrisiant:

- Aradeiledd ac Isadeiledd
- Gorffeniadau Mewnol a Ffitiadau
- Gwasanaethau

Mae tir yn cael ei adnabod fel cydran ar wahân yn ei rinwedd ei hun.

Caiff enillion adbriso eu dibrisio hefyd, gyda swm sydd gyfwerth â'r gwahaniaethau rhwng dibrisiad gwerth presennol a godir ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbriso Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a gânt eu Dal i'w Gwerthu

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cludo ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gaiff ei Dal i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbriso'n syth cyn eil ailddosbarthu ac yna caiff ei gario ar y swm isaf a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo lleihad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion o ran gwerth teg eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion blaenorol yn unig a gydnabyddir yn y Gwarged neu Golled ar Darpariaeth Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiad ei godi ar Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Os na fydd asedau yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu bellach, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u prisio ar swm isaf eu swm cludo cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau a gânt eu dal i'w Gwerthu; cânt eu haddasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddio neu adbriso a fyddai wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Ni chaiff asedau a gaiff eu gadael neu eu sgrapio eu hailddosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddatgomiynu, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriant, Offer neu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei diddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os oes rhai), eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion adbriso a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad mwy na £10,000 eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen i dderbynebau gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir eu defnyddio, neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu (y Nawdd Cyfalaf

Gofynnol). Caiff derbynebaw eu hadfeddu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael ei dalu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

xvii. Darpariaethau

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, y mae'n fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm y rhwymedigaeth honno.

Codir tâl am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, fe'u codir o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - pan ddaw'n llai na thebygol y bydd bellach angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu fod setliad is na'r hyn a ddisgwyliid yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl i beth, neu'r cyfan, o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond pan fo'n bron yn sicr y caiff ad-daliad ei dderbyn os bydd y cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol.

xviii. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol wrth gefn er dibenion polisïau yn y dyfodol neu ar gyfer treuliau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy ddosrannu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

xix. Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud

Codir am wariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei wneud yn gyfalaf o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chostau'r gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthycu, yna bydd trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau y codwyd amdanynt yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oed unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor.

xx. TAW

Caiff TAW taladwy ei gynnwys fel gwariant dim ond cyhyd ac nad oes modd ei adfer gan Adran Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW derbyniadwy ei eithrio o'r incwm.

2. Safonau Cyfrifo sydd wedi'u Cyflwyno ond heb eu Mabwysiadu eto

O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 (y Cod), mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi effaith newid cyfrifo sy'n ofynnol gan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei gyhoeddi ond heb ei fabwysiadu eto gan y Cod.

SAARh 9 Offerynnau Ariannol

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu SAARh 9 Offerynnau Ariannol o 1 Ebrill 2018. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys ail-ddosbarthu asedau ariannol a chydabyddiaeth gynharach o amhariad asedau ariannol.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r newidiadau ail-ddosbarthiad gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol oherwydd disgwylir y bydd y mwyafrif o'r asedau ariannol yn cadw'r un sail fesur. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r newidiadau amhariad gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol oherwydd bydd y tâl amhariad yn anfaterol ar gyfer asedau rheoli'r trysorlys e.e. adneuon banc.

SAARh 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid

Mae hyn yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer cydnabod refeniw, yn seiliedig ar fodel cydnabyddiaeth refeniw yn seiliedig ar reolaeth. Ni ddisgwylir y bydd gan y Cyngor unrhyw ffrydiau refeniw materol o fewn cwrpas y safon newydd.

SCRh 7 Datganiad Llif Arian (Menter Datgelu)

Bydd y safon hon yn gofyn am ddadansoddiad ychwanegol o'r Llif Arian o Weithgareddau Ariannu yn y dyfodol.

SCRh 12 Trethi Incwm (Cydnabod Asedau Treth Gohiriedig ar gyfer Colledion heb eu Gwireddu)

Mae hyn yn berthnasol i asedau treth gohiriedig sy'n gysylltiedig ag offerynnau dyled a fesurir ar werth teg. Ni ddisgwylir y bydd gan y Cyngor unrhyw offerynnau dyled o fewn cwrpas y safon newydd.

SAARh 16 Prydlesau

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n lesddeiliad i gydnabod y mwyafrif o brydlesau ar y fantolen fel asedau sydd â hawl i'w defnyddio gyda rhwymedigaethau prydles cyfatebol (mae cydnabyddiaeth am brydlesau gwerth isel a thymor byr).

3. Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifo

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifo a amlinellir yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud rhai dyfarniadau ynglŷn â thrafodaethau cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau'r dyfodol. Y dyfarniadau beirniadol a wneir yn y Datganiad Cyfrifon yw:

- **Lefelau Ariannu'r Llywodraeth i'r Dyfodol** – Mae lefel uchel o ansicrwydd o amgylch y lefelau ariannu ar gyfer awdurdodau lleol i'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi neilltuo symiau mewn darpariaethau, balansau a chronfeydd wrth gefn y mae'n credu sy'n briodol i reoli arian y Cyngor dros y tymor canolig. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu bod ei record cryf ym maes rheoli ariannol a chyllidebol yn golygu nad oes rheswm digonol eto i newid y rhagdybiaeth na fydd asedau'r Cyngor yn cael eu hamharu'n sylweddol o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a/neu leihau lefelau darpariaeth gwasanaeth yn sylweddol. Mae'r farn hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

- **Ansicrwydd Economaidd** – Wrth asesu'r lefelau priodol o ddarpariaethau, balansau a chronfeydd wrth gefn, mae'r darlun economaidd ehangach wedi cael ei ystyried hefyd. Yn benodol, ystyriwyd effeithiau posibl gweithredu'r diwygiadau lles yn llawn.

4. Tybiaethau a Wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif Mawr

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys rhai ffigyrau wedi'u hamcangyfrif sydd wedi eu seilio ar dybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynglŷn â'r dyfodol neu sydd fel arall ag ansicrwydd yn perthyn iddynt. Amcangyfrifir trwy roi cyfrif o brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu'r balansau â sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'n debygol y bydd y defnydd o amcangyfrifon wrth, er enghraifft, gyfrifo cronïadau ac ad-daliadau gwasanaeth yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf oherwydd yr angen i gydymffurfio â chynigion Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau cyfrifon awdurdodau lleol, er mwyn iddynt gydymffurfio â rhannau eraill o'r sector gyhoeddus. Serch hynny, doedd dim angen unrhyw gynnydd sylweddol yn y defnydd o amcangyfrifon yn y Datganiad o Gyfrifon cyfredol.

Mae'r eitemau a oedd ym Mantolen Y Cyngor ar 31 Mawrth 2018 y mae rhyw gymaint o risg y byddant yn addasu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf fel a ganlyn:

Eiddo, Peiriannau ac Offer

Dibrisir asedau yn ystod eu hoes ddefnyddiol sy'n ddibynnol ar dybiaethau ynglŷn â lefelau atgyweirio a chynnal a chadw a wneir yn y dyfodol mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd modd i'r Cyngor gynnal ei wariant presennol ar atgyweirio a chynnal a chadw, gan beri amheuaeth ynglŷn â hyd yr oes ddefnyddiol sydd wedi ei bennu i rai o'r asedau. Os cwtogir oes ddefnyddiol ased, mae'r dibrisiad yn cynyddu ac mae swm cario'r ased yn gostwng. Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbrisio yn ysbeidiol a'u profi'n flynyddol am ddangosyddion o amhariad. Mae angen dyfarniadau i wneud asesiad p'un ai bod dangosydd o amhariad neu beidio. Mae'r profiad amhariad yn cynnwys archwilio'r gwariant cyfalaf a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol i ganfod p'un ai i hynny arwain at gynnydd yng ngwerth ased neu at amharu â'r gwerth hwnnw. Cafodd cyngor ei roi i briswyr y cyngor. Os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r tybiaethau, bydd gwerth asedau Eiddo Peiriannau ac Offer wedi cael eu datgan yn rhy uchel neu'n rhy isel. Byddai hyn yn cael ei amrywio y tro nesaf y byddai'r asedau'n cael eu priso.

Gwerth yr Eiddo, y Peiriannau a'r Offer a ddatgelir ar y Fantolen yw £486,667k a cheir rhagor o wybodaeth o fewn Nodyn 14.

Dyled Pensiwn

Mae'r amcangyfrif o'r ddyled net er mwyn talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau yn ymwneud â chyfradd y disgownt a ddefnyddir, y gyfradd yr amcanestynir y bydd cyflogau'n cynyddu, newid mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwoldeb a'r adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiynau. Defnyddir cwmni o actiwariaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol i'r Cyngor ynglŷn â'r tybiaethau y dylid eu cymhwyso.

Gwerth y ddyled pensiwn a'r gronfa pensiynau wrth gefn gyfatebol sydd wedi ei datgelu ar y Fantolen yw £249,461k. Mae gwybodaeth fanwl wedi ei chynnwys o fewn Nodiadau 22, 33 a 34.

Croniad Buddiannau Gweithwyr

Cyfrifwyd croniad buddiannau gweithwyr (gwyliau blynyddol ac amser hyblyg) ar sail sampl o weithwyr. Balans y Cyfrif Absenoldeb Cronnol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2018 oedd £2,298k a manylir ynglŷn â hynny yn Nodyn 22.

Ôl-ddyledion

Cynhaliwyd adolygiad o ddyled sydd heb ei thalu a gwnaed lwfans ar gyfer dyledion ag amheuaeth yn eu cylch. Rhaid i unrhyw lwfans a wneir ar gyfer dyledion i'r dyfodol y mae amheuaeth yn eu cylch fod wedi eu seilio ar amcangyfrif. Mae'r lwfans a wneir yn un doeth ond mae unrhyw newidiadau megis hinsawdd economaidd a newidiadau pellach i'r system les yn golygu y gallai fod angen adolygu'r lwfansau flwyddyn nesaf.

Ar 31 Mawrth 2018 roedd gan y Cyngor balans dyledwyr amrywiol o £7,550k. Awgrymodd adolygiad o'r balans hwn fod darpariaeth ddyledion drwg penodol o £943k a darpariaeth gyffredinol o ddyledion drwg o £979k yn briodol. Roedd ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn £2,542k gyda darpariaeth ddyledion drwg o £1,558k. Roedd ôl-ddyledion y Trethi Annomestig Cenedlaethol yn £588k gyda darpariaeth ddyledion drwg o £277k. Roedd ôl-ddyledion o £1,822k yng Ngordaliadau Budd-dal Tai gyda darpariaeth ddyledion drwg o £911k. Dangosir y ffigyrau ar gyfer Rhenti Tai yn Nodyn 2 y Cyfrif Refeniw Tai.

5. Eitemau o Incwm a Gwariant Materol

Nid oedd unrhyw eitemau materol o incwm neu wariant yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

6. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon gan y Prif Swyddog Cyllid ym mis Mehefin 2018. Nid yw digwyddiadau sydd wedi digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol nac yn y nodiadau. Pan fo digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag amodau a oedd mewn bodolaeth ar 31 Mawrth 2018, yna bydd y ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r rhai o fewn y nodiadau wedi cael ei hamrywio ym mhob ffordd yn faterol i adlewyrchu traweffaith yr wybodaeth hon.

7. Gwariant ac incwm a ddadansoddir yn ôl ei natur

Dadansoddir gwariant ac incwm yr awdurdod fel a ganlyn:

2016/17 £000		2017/18 £000
	Gwariant	
125,707	Costau buddiannau gweithwyr	132,806
4,907	Costau gweithwyr ysgolion wirfoddol dan gymorth	4,944
145,540	Costau gwasanaethau eraill	147,640
0	Ad-daliadau gwasanaethau cynhorthwyol	0
29,082	Dibrisiant, amorteiddiau & amhariad	36,040
16,579	Taliadau llog	16,087
15,463	Archebiannau ac ardollau	16,147
111	Colled wrth waredu asedau	0
337,389	Cyfanswm gwariant	353,664
	Incwm	
(54,361)	Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaeth arall	(56,437)
(60)	Incwm llog a buddsoddi	(963)
(85,365)	Incwm o dreth y cyngor & threthi annomestig	(89,376)
(191,799)	Grantiau llywodraeth a chyfraniadau	(193,547)
(71)	Grantiau a chyfraniadau anllywodraethol	(335)
(40)	Ennill wrth waredu asedau	(110)
(331,696)	Cyfanswm incwm	(340,768)
5,693	Swm dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethu	12,896

8. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ynglŷn â'r addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr y mae'n Cyngor yn eu cydnabod yn ystod y flwyddyn yn unol â'r arferion cyfrifeg priodol ynglŷn â'r adnoddau hynny sydd wedi eu pennu gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod eu defnyddio i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw.

Mae'r canlynol yn amlinellu disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu haddasu.

Balans Cronfa'r Cyngor

Cronfa'r Cyngor yw'r gronfa statudol y mae'n rhaid talu holl dderbyniadau'r awdurdod iddi ac y mae'n rhaid cwrdd â holl ddyledion yr awdurdod ohoni, ar wahân i'r graddau y bod rheolau statudol yn dweud yn wahanol. Gall y rheolau hyn hefyd nodi ym mha flwyddyn ariannol y dylai dyledion a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, nad yw o anghenraid yn unol â'r arfer gyfrifeg briodol. Mae Balans Cronfa'r Cyngor felly'n crynhoi'r adnoddau y mae gan y Cyngor y grym statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiadau cyfalaf yn niwedd y flwyddyn ariannol. I awdurdodau tai, fodd bynnag, nid yw'r balans ar gael i'w gymhwyso i ariannu gwasanaethau'r Cyfrif Refeniw Tai.

Balans y Cyfrif Refeniw Tai

Mae Balans y Cyfrif Refeniw Tai yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth statudol i gynnal cyfrif refeniw ar gyfer darpariaeth tai cyngor awdurdod lleol yn unol â Rhan VI Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'n cynnwys balans yr incwm a'r gwariant fel sydd wedi ei ddiffinio gan Ddeddf 1989 sydd ar gael i ariannu gwariant mewn perthynas â swyddogaeth y Cyngor fel landlord.

Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf

Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn dal enillion gwaredu tir ac asedau eraill, sydd wedi eu cyfyngu gan statud rhag cael ei defnyddio i wneud dim ar wahân i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i gael eu rhoi i'r naill ochr i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y pwrpasau hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso

Mae Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer a fyddai fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu'r arian sydd eto i'w gymhwyso i gwrdd â gwariant. Caiff y balans ei gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn ac/neu gan y flwyddyn ariannol y dylai hyn ddigwydd.

2017/18	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio			
	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwysu £000
Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw Symiau incwm a gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol: <ul style="list-style-type: none"> • Costau Pensiwn • Offerynnau Ariannol • Tâl gwyliau • Gwrthdroad cofnodion a gynhwysir yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf 	(8,960) 6 850 (15,430)	(388) 0 (14) (7,269)		(1,499)
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(23,534)	(7,671)	0	(1,499)
Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf Trosglwyddiad derbyniadau gwerthiant asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Costau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol Taliadau i'r gronfa derbyniadau tai y llywodraeth Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyledion Gwariant cyfalaf a gyllidir o falansau refeniw	1,892 0 0 6,163 5,713	328 0 0 2,703 1,647	(2,220)	
Cyfanswm Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf	13,768	4,678	(2,220)	0
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf Cymhwysiad grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf Taliadau arian parod mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf gohiriedig			1,692	2,156
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	0	1,692	2,156
Cyfanswm Addasiadau	(9,766)	(2,993)	(528)	657

2016/17	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio			
	Balans Cronfa'r Cyngor £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000
Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw Symiau incwm a gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol:				
• Costau Pensiwn	(4,020)	(200)		
• Offerynnau Ariannol	3	(2)		
• Tâl gwyliau	(756)	6		
• Gwrthdroad cofnodion a gynhwysir yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf	(16,386)	(2,657)		(2,402)
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(21,159)	(2,853)	0	(2,402)
Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf Trosglwyddiad derbyniadau gwerthiant asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn Costau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol Taliadau i'r gronfa derbyniadau tai y llywodraeth Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyledion Gwariant cyfalaf a gyllidir o falansau refeniw	2,926	971	(3,897)	
	7,503	2,522		
	6,769	1,497		
Cyfanswm Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf	17,198	4,990	(3,897)	0
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf Cymhwysiad grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf Taliadau arian parod mewn perthynas â derbyniadau cyfalaf gohiriedig			1,279	171
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	0	1,279	171
Cyfanswm Addasiadau	(3,961)	2,137	(2,618)	(2,231)

9. Gwariant Gweithredu Arall

2016/17 £000		2017/18 £000
9,338	Praesept yr Heddlu	9,788
4,364	Praesept Awdurdod Tân	4,525
1,761	Praeseptau Cyngor Cymuned	1,834
401	(Enillion)/colledion ar Asedau ar Werth a chael gwared ar asedau nad ydynt yn gyfredol	(1,187)
661	Costau Gweinyddu Pensiwn	685
16,525	Cyfanswm	15,645

10. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi

2016/17 £000		2017/18 £000
9,385	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg	9,147
7,024	Llog net ar y rhwymedigaeth net ddiffiniedig (ased)	6,524
(59)	Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	(44)
60	Incwm a gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a newidiadau yn eu pris teg	(503)
16,410	Cyfanswm	15,124

11. Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol

2016/17 £000		2017/18 £000
(56,969)	Incwm Treth y Cyngor	(58,762)
(28,396)	Cyfraddau annomestig	(30,614)
(111,212)	Grantiau llywodraeth heb eu neilltuo	(109,860)
(16,116)	Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau	(17,296)
(212,693)	Cyfanswm	(216,532)

12. Treth y Cyngor

Mae incwm Treth y Cyngor yn deillio o newidiadau a godwyd yn unol â gwerth eiddo preswyl, sydd wedi'u dosbarthu yn naw band prisio, gan amcangyfrif gwerthoedd 1 Ebrill 2003 ar gyfer y diben penodol hwn. Cyfrifir taliadau drwy ystyried yr incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, pob Cyngor Cymuned a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a rhannu'r swm hwn gyda Sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band sydd wedi'u haddasu i drosi'r rhif yn gyfwerth â Band D, a'i addasu ar gyfer disgowntiau. Y sylfaen dreth yw 39,274.89 yn 2017/18 (38,888 yn 2016/17).

Y swm sylfaenol (yn cynnwys praesept Cyngor Cymuned a phraesept Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) ar gyfer eiddo Band D oedd £1,487.18 (£1,444.75 yn 2016/17) ac fe'i lluosogir gan y gyfran a fanylir ar gyfer y band penodol i roi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Roedd biliau treth y cyngor yn seiliedig ar luosyddion bandiau A i I:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Nifer yr eiddo yn system Treth y Cyngor ar 31 Mawrth 2018	3,975	7,202	14,378	7,738	5,378	3,659	1,990	311	167

Dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor:

2016/17 £000		2017/18 £000
56,969	Treth y Cyngor sy'n gasgladwy	58,762
(9,338)	Swm sy'n daladwy i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	(9,788)
(368)	Darpariaeth am beidio â thalu Treth y Cyngor	(240)
47,263	Enillion net o Dreth y Cyngor	48,734
	Hollt Cyngor Sir Ddinbych:	
45,465	Cyngor Sir Ddinbych	46,872
1,761	Cynghorau Cymuned	1,834
37	Gostyngiad Cyfradd Annomestig Dewisol	28
47,263		48,734

13. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir yr NNDR ar sail genedlaethol. Nododd Llywodraeth Cymru'r gyfradd o 49.9c yn 2017/18 (48.6c yn 2016/17) ac yn ddibynnol ar effeithiau trefniadau trawsnewidiol, mae busnesau lleol yn talu cyfraddau a gyfrifir drwy luosi eu gwerth ardrethol gyda'r swm hwnnw. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu cyfraddau sy'n ddyledus gan drethdalwyr yn ei ardal, ond yn talu'r enillion i'r gronfa NNDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n aiddosbarthu'r symiau sy'n daladwy i awdurdodau lleol ar sail y swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm yr NNDR (ar ôl gostyngiad a darpariaethau) o £24,102k ar gyfer 2017/18 (£22,962k ar gyfer 2016/17) yn seiliedig ar gyfanswm cyfradd ardrethol o £66,510k ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gorfod datgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor, neu i'w rheoli neu eu dylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu darllenwyr i asesu'r graddau y gallai'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu efallai wedi diogelu'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i ymdrin yn rhydd â'r Cyngor.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan y Lywodraeth Ganolog ddylanwad statudol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor - mae'n gyfrifol am ddarparu fframwaith strategol y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo, yn darparu'r mwyaf o'i gyllid ar ffurf grantiau, ac yn rhagnodi telerau sawl trafodyn sydd gan y cyngor â phartïon eraill (e.e. biliau treth y cyngor, budd-daliadau tai). Mae grantiau a dderbyniwyd gan adrannau'r llywodraeth wedi'u trafod mewn mwy o fanylder yn Nodyn 29.

Aelodau Etholedig

Gofynnwyd i'r holl Aelodau Etholedig cyfredol i gwblhau datganiad ac i ddatgelu unrhyw drafodion yn ymwneud â pharti yn yr awdurdod. Derbyniwyd datganiad gan yr holl Aelodau Etholedig.

Gwnaethpwyd y datganiadau materol canlynol ar gyfer 2017/18:

- Datganodd aelod etholedig y mae ei berthynas yn gweithio o fewn y Gwasanaeth Addysg ddiddordeb mewn grŵp sy'n ymwneud â chodi arian ar gyfer yr Ysgol Ffydd newydd arfaethedig yn y Rhyl.
- Datganodd aelod etholedig berthynas â chontractwr y talodd y cyngor £43k iddo yn 2017/18.
- Roedd aelod etholedig ynghlwm wrth gytundeb i rannu costau gyda'r Cyngor yn ymwneud â ffens ffin.
- Cytunodd aelod etholedig i gytundeb i rentu eiddo i'r Cyngor at ddibenion tai.
- Roedd un aelod etholedig yn rhan o broses cais cynllunio personol yn ystod 2017/18, tra bod un arall yn Drysorydd clwb chwaraeon lleol a oedd yn rhan o broses cais cynllunio.
- Datganodd aelod etholedig berthynas â chwmni sy'n rhentu Uned Ddiwydiannol wrth y Cyngor. Death y berthynas hon i ben yn ystod 2017/18.
- Datganodd aelod etholedig berthynas ag unigolyn a ddarparodd wasanaethau proffesiynol i'r Cyngor, ac i'r sawl y talodd y Cyngor £14k yn 2017/18.

Cynhelir rhestr o ddiddordebau aelodau etholedig gan Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, ac mae'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae nifer o aelodau etholedig hefyd wedi'u penodi gan y Cyngor i wasanaethu ar gyrfi eraill sydd â pherthynas ariannol gyda'r Cyngor. Caiff y rhain eu manylu yn yr adran Cwmnïau isod.

Swyddogion

Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth gwblhau datganiad i ddatgelu unrhyw drafodion yn ymwneud â pharti sydd ganddynt â'r awdurdod. Gwnaethpwyd y datganiadau materol canlynol ar gyfer 2017/18:

- Datganodd uwch swyddog berthynas ag unigolyn a oedd yn rhan o gais cynllunio busnes yn ystod 2017/18.
- Roedd uwch swyddog yn Aelod o Fwrdd Cwmni Buddiant Cymunedol awdurdod cyfagos a ymgwymerodd â phrosiectau sy'n defnyddio fframwaith caffael Sr Ddinbych.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Asiantaeth Pensiynau Athrawon

Mae'r costau pensiwn a godir yn y gyfradd gyfrannu a osodwyd gan yr Adran Addysg ar sail cronfa dybiannol. Mae manylion pensiwn athrawon wedi'u nodi yn Nodyn 33.

Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gorff a dderbyniwyd i Gronfa Bensiynau Clwyd. Mae manylion o'r trafodion a wnaed gyda Cronfa Bensiwn Clwyd wedi'u cynnwys yn Nodyn 34.

Cynghorau Cymuned/Tref a Dinas

Mae Cyfanswm y praeseptau a dalwyd i'r 37 o gynghorau cymuned/tref a dinas wedi'u cynnwys yn Nodyn 9 ac yn dod i gyfanswm o £1,834k (£1,761k yn 2016/17).

Comisiynydd Heddlu & Throseddu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Mae Comisiynydd Heddlu & Throseddu ac Awdurdodau Tân ac Achub yn gosod eu ffioedd eu hunain i dalwyr treth y cyngor, sydd wedyn yn cael eu cynnwys ar bil treth y cyngor - mae'r taliadau hyn yn cael eu hadnabod fel y praesept. Mae cyfanswm y praeseptau a'r ardollau a dalwyd i Gomisiynydd Heddlu & Throseddu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn dod i gyfanswm o £14,313k (£13,702k yn 2016/17). Mae dadansoddiad wedi ei ddarparu yn Nodyn 9.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae gan yr Awdurdod ddau drefniant cyllideb ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: un ar gyfer darparu storfa Offer Cymunedol; a sefydlwyd yr ail gyda'r nod o sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig o weithiwr cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn y gymuned. Roedd cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych i'r storfa Offer Cymunedol yn £219k (£219k yn 2016/17) a chyfrannodd yr Awdurdod £50k i'r Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£50k yn 2016/17).

Cymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL)/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Mae'r Cyngor yn aelod o CLIL/CLILC a gwnaed taliadau iddynt o £78k yn 2017/18 (£106k yn 2016/17). Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw incwm gan CLIL/CLILC yn 2017/18 ac nid oedd unrhyw incwm yn 2016/17.

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Mae CBAC yn fwrdd arholi, sydd yn darparu cymwysterau ac asesiad arholiadau i ysgolion Sir Ddinbych. Mae un o Gyfarwyddwyr Gweithredol ei Fwrdd yn Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ddinbych. Yn 2017/18 talodd Cyngor Sir Ddinbych £747k ac roedd ganddo ddyled o £5k ar ddiwedd y flwyddyn i CBAC (talwyd £652k yn 2016/17).

Cwmnïau

Mae Cod Ymarfer Cyfrifo yn gofyn i awdurdod sydd â chysylltiadau materol mewn un neu fwy o is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig baratoi cyfrif refeniw grŵp a mantolen. Nid yw cysylltiadau'r Cyngor â'r cwmnïau perthnasol naill ai'n diwallu'r meini prawf ar gyfer bod yn is-gwmni neu'n gwmni cysylltiedig fel y nodir yn y Cod, neu lle maent yn diwallu'r meini prawf, ni ystyrir eu bod yn faterol mewn perthynas â graddfa gyffredinol gweithrediadau'r Cyngor, ac o ganlyniad nid yw Cyfrifon Grŵp wedi'u paratoi.

Mae manylion y cwmnïau perthnasol fel a ganlyn:

Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan a Mentrau Castell Bodelwyddan Cyf.

Mae Grŵp Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan yn gwmni cyfyngedig drwy warant, heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Mae'n elusen gofrestrdedig a sefydlwyd yn Chwefror 1994. Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw datblygu addysg drwy gaffael, cynnwys a dangos gwrthrychau a chasgliadau o natur addysgol, a drwy sefydlu, caffael a rheoli amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd i'w defnyddio ar gyfer dibenion o'r fath. Mae'r Ymddiriedolaeth yn caffael arteffactau y mae'n eu hadfer, eu cadw a'u harddangos. Mae hefyd yn rheoli parc cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden ac yn hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r byd naturiol. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi grant blynyddol i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan ac yn ystod 2017/18, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth £145k. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu ei wasanaethau cyflog. Roedd Bwrdd y Gyfarwyddwyr yn cynnwys cyfanswm o wyth aelod, nad oedd yr un ohonynt yn Gynghorydd Cyngor Sir Ddinbych.

Nid yw'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 ar gael eto. Fodd bynnag, roedd asedau net y Grŵp ar 31 Mawrth 2017 yn £716k ac roedd yr adnoddau sy'n dod i fewn am y flwyddyn yn dod i gyfanswm o £28k.

Ni ystyrir bod y cwmni'n is-gwmni neu'n gwmni cysylltiedig yr Awdurdod, ar sail er gwaethaf bod yn fuddsoddwr yn y cwmni, mae Sir Ddinbych yn dal llai na 20% o'r hawliau pleidleisio, sydd felly'n aelodaeth leiafrifol. Felly nid oes cyfrifon grŵp wedi'u paratoi.

Nid oes unrhyw atebolrwydd cyfreithiol i'r cyngor gyfrannu at golledion neu ddiffygion y cwmni.

Gellir cael gwybodaeth bellach gan Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan Cyf., Bodelwyddan, LL18 5YA.

31. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau ariannol a chontractau PFI/PP), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y dyfodol drwy daliadau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn golygu bod cynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), mesuriad o'r gwariant cyfalaf a wnaed yn hanesyddol gan y Cyngor nad ydyw wedi'i ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn ail ran y nodyn hwn.

2016/17 £000		2017/18 £000
233,672	Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol	241,564
	Buddsoddiad Cyfalaf	
39,660	Eiddo, Peiriannau ac Offer	43,412
0	Eiddo Buddsoddi	0
3,304	Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	4,192
	Ffynonellau o Arian	
(1,279)	Derbyniadau cyfalaf	(1,692)
(15,452)	*Grantiau a chyfraniadau eraill y Llywodraeth Symiau a roddwyd o'r neilltu o refeniw:	(18,681)
(8,266)	*Cyfraniadau refeniw uniongyrchol	(7,359)
(10,075)	MRP a Dyledwyr Hirdymor	(8,916)
241,564	Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol	252,520

2016/17 £000		2017/18 £000
	Esboniad o symudiadau mewn blwyddyn	
4,167	Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthycyca (a gefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth)	2,679
14,528	Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthycyca (heb gefnogaeth cymorth ariannol y llywodraeth)	17,439
(10,075)	MRP a Dyledwyr Hirdymor	(8,916)
(728)	Derbyniadau Cyfalaf a neilltuwyd	(246)
7,892	Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf	10,956

* Mae ffigyrau 2016/17 wedi cael eu hailddatgan i gymryd ystyriaeth o ail-ddosbarthiad y cronfeydd cyfalaf.

32. Prydlesau

Mae'r Cyngor yn prydlesu rhai o'i eiddo, cerbydau ac eitemau o offer, yn ogystal â phrydlesu rhai o'r eiddo y mae'n berchen arnynt. Mae trefniadau'r prydlesau wedi'u hadolygu a'u dosbarthu fel prydlesau gweithredol neu ariannol fel y disgrifir mewn mwy o fanylder isod.

Awdurdod fel Lesddeiliad

Prydlesau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi caffael rhai eiddo o dan brydlesau ariannol.

Caiff yr asedau a gafaelir o dan y prydlesau hyn eu cario fel Adeiladau, Peiriannau ac Offer yn y Fantolen ar y symiau net canlynol:

31 Mawrth 17 £000		31 Mawrth 18 £000
3,239	Tir ac Adeiladau Eraill	4,407

Awdurdod fel Prydlesydd

Prydlesau Weithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo i unigolion o dan brydlesau gweithredol ar gyfer dibenion amrywiol, fel datblygiad economaidd, i ddarparu unedau i fusnesau lleol. Y taliadau prydles lleiaf sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

31 Mawrth 17 £000		31 Mawrth 18 £000
1,031	Dim hwyrach na blwyddyn	1,159
2,746	Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	2,781
13,651	Hwyrach na 5 mlynedd	13,287
17,428		17,227

33. Cynlluniau Pensiwn y Rhoddir Cyfrif Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon pan fyddant yn ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y costau drwy wneud cyfraniadau ar sail canran o gyflogau pensiynadwy aelodau. Yn dechnegol, mae'r Cynllun yn gynllun â buddion diffiniedig. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun wedi'i gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol i gyfrifo cyfradd gyfraniadau cyflogwyr a delir gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu nodi ei gyfran o sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y Cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifeg. At ddiben y Datganiad Cyfrifon hwn, caiff ei gyfrif ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn 2017/18, talodd y cyngor sir £5,454k i Bensiynau Athrawon o ran buddiannau ymddeol athrawon, sy'n gyfwerth â 16.48% o gyflog pensiynadwy. Y ffigurau ar gyfer 2016/17 oedd £5,530k ac 16.48%. Yn ogystal, gwnaed taliadau o ran ymddeoliadau cynnar cyfwerth â £379k (£379k yn 2016/17). Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn aros i'w talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a roddir wrth ymddeol yn gynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig ac fe'u nodir yn Nodyn 34.

34. Cynlluniau Pensiwn â Buddiannau Diffiniedig**Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn**

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gost buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn cael eu talu nes i'r gweithwyr ymddeol, mae ymrwymiad ar y Cyngor i wneud y taliadau (ar gyfer y buddiannau hyn) a datgelu pryd y gall gweithwyr gael eu hawliad yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun ar ôl cyflogaeth.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae hwn yn drefniant pensiwn â buddiannau diffiniedig a gaiff ei gyllido, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriedir i gydbwysu dyledion pensiynau gydag asedau buddsoddi.
- Trefniadau ar gyfer rhoi buddiannau â disgresiwn ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn gynnar – mae hwn yn drefniant buddiannau diffiniedig na chaiff ei gyllido, lle caiff dyledion eu cydnabod pan gaiff y buddiannau eu rhoi. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi'u cronni i dalu'r dyledion pensiynau hyn, a rhaid creu arian parod i dalu taliadau pensiwn gwirioneddol pan fyddant yn daladwy.
- Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn drefniant aml-gyflogwr, ble mae pob cyflogwr yn gyfrifol am y costau pensiwn, rhwymedigaethau a risgiau ariannu yn ymwneud â'i weithwyr ei hun a chyn-weithwyr.
- Mae rheolaeth y Gronfa yn cael ei freinio yng Nghyngor Sir y Fflint, sef Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n cynnwys pum Cynghorydd o Gyngor Sir y Fflint a phedwar aelod cyfetholedig.

Mae'r Pwyllgor, gyda chymorth ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa, yn ymgymryd â rolau megis penderfynu ar bolisiâu mewn perthynas â'r strategaeth fuddsoddi, gweinyddu llywodraethu, cyfathrebu, strategaeth ariannu a darpariaethau rheoli risg.

Am fanylion pellach ynglŷn ag egwyddorion llywodraethu a buddsoddi Cronfa Bensiwn

Clwyd, ewch i www.clwydpensionfund.org neu cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd yn:

Cronfa Bensiwn Clwyd
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NA

- Y prif risgiau i awdurdod y cynllun yw'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. codi arian ar raddfa fawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, llog bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi tâl ar Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn y symiau sy'n ofynnol yn ôl statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifeg.

Trafodion sy'n gysylltiedig â Buddiannau ar ôl Cyflogaeth

Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae angen i ni eu gwneud yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ar ôl cyflogaeth/buddiannau ymddeol ei dynnu allan o Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai drwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn	
	2016/17 £000	2017/18 £000	2016/17 £000	2017/18 £000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cost y Gwasanaethau <i>Cost gwasanaeth, yn cynnwys:</i>				
• Costau Gwasanaeth Cyfredol	13,147	20,335		
• Costau Gwasanaeth y Gorffennol / (Enillion)	84	117		
• (Enillion) Colled o Setliadau a Chwtogiadau	0	0		
<i>Gwariant Gweithredu Arall:</i>				
• Treuliau Gweinyddu	661	685		
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:				
• Treuliau Llog Net	6,752	6,322	272	202
Cyfanswm y Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Buddiannau eraill ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Ailfesuriad y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig Net yn cynnwys:	20,644	27,459	272	202
• *Adenillion ar Asedau Cynlluniau (ac eithrio'r swm a nodir yn y Gwariant Llog Net) (A)	(51,659)	(6,936)		
• *(Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Demograffig (B)	(10,823)	0	(398)	0
• *(Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Ariannol (C)	129,984	(26,689)	783	(121)
• *Arall (D)	(5,841)	0	205	0
Cyfanswm Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	82,305	(6,166)	862	81
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
• Gwrthdroi costau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Ddyled ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer Buddiannau ar ôl Cyflogaeth yn unol â'r Cod	(20,644)	(27,459)	(272)	(202)
Swm gwirioneddol a godir yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn.				
• Cyfraniadau gweithiwr sy'n daladwy i'r cynllun	15,893	17,537		
• Buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr			803	777

*A + B + C + D = Ailfesuriad y Rhwymedigaeth / (Ased) Buddiannau Diffiniedig Net fel y dyfynnwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: (£33,746k) 2017/18; (£62,251k 2016/17).

Asedau Pensiwn a Rhwymedigaethau a Gydabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a nodir yn y Fantolen yn sgil rhwymedigaeth yr awdurdod o ran ei gynlluniau buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn	
	2016/17 £000	2017/18 £000	2016/17 £000	2017/18 £000
Gwerth Presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	654,439	649,677	8,470	7,774
Gwerth teg yr Asedau Cynlluniau	(389,051)	(407,992)		
Is-gyfanswm	265,388	241,685	8,470	7,774
Symudiadau eraill yn y rhwymedigaeth (ased)				
Rhwymedigaeth net yn sgil y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	265,388	241,685	8,470	7,774

Cysoni Symudiadau yn yr Asedau'r Cynllun Gwerth Teg

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2016/17 £000	2017/18 £000
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	324,415	389,051
Incwm llog	11,837	9,855
Treuliau gweinyddu	(661)	(685)
Enilliad/(colled) ailfesuriad:		
• Yr elw ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm a gynhwysir yn y gwariant llog net	51,659	6,936
• Arall		
Effaith newidiadau yng nghyfraddau'r gyfnewidfa dramor		
Cyfraniadau gan y cyflogwr	15,893	17,537
Cyfraniadau gan weithwyr	3,583	3,723
Buddiannau a dalwyd	(17,675)	(18,425)
Arall		
Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	389,051	407,992

Cysoni Gwerth Presennol y Cynllun Rhwymedigaethau (Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig)

	Rhwymedigaethau a Ariennir Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaeth nas Ariennir Trefniadau Buddiannau Disgresiwn	
	2016/17 £000	2017/18 £000	2016/17 £000	2017/18 £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	523,391	654,439	8,411	8,470
Cost gwasanaeth presennol	13,147	20,335		
Cost llog	18,589	16,177	272	202
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun (Enillion) a cholledion aifesuriad:	3,583	3,723		
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	(10,823)	0	(398)	0
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	129,984	(26,689)	783	(121)
• Arall	(5,841)	0	205	0
Cost gwasanaeth blaenorol	0	19		
Colledion/(enillion) a chwtogiad	84	98		
Rhwymedigaethau a ragdybir ar gyfuniad endidau Buddiannau a dalwyd Rhwymedigaethau wedi eu dileu ar setliadau	(17,675)	(18,425)	(803)	(777)
Balans terfynol ar 31 Mawrth	654,439	649,677	8,470	7,774

Asedau Cynwysedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

	Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	
	2016/17 £000	2017/18 £000
Arian Parod a Symiau Cywerth ag Arian Parod	3,501	4,896
Ecwitiai		
• DU a ddyfynnwyd	0	0
• Byd-eang a ddyfynnwyd	29,957	33,455
• Byd-eang a ddyfynnwyd	0	0
• UDA	0	0
• Japan	0	0
• Ewrop	0	0
• Marchnadoedd datblygol	24,121	28,559
• Cyffindir	0	0
• Dwyrain Pell	0	0
Is-gyfanswm Ecwiti	54,078	62,014
Bondiau		
Bondiau Tramor Eraill	46,297	46,511
LDI	90,649	92,206
Is-gyfanswm Bondiau	136,946	138,717
Eiddo:		
• DU	17,507	20,808
• Tramor	8,948	5,304
Is-gyfanswm Eiddo	26,455	26,112
Eraill:		
• Cronfeydd Diogelu	34,236	34,271
• Ecwiti preifat	38,905	42,023
• Isadeiledd	7,003	9,384
• Coed ac Amaeth	6,614	5,712
• Credyd Preifat	0	3,264
• DGF	81,313	81,599
Is-gyfanswm Eraill	168,071	176,253
Cyfanswm Asedau	389,051	407,992

Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Dyledion

Mae dyledion wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ac ati.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a dyledion buddiannau â Disgresiwn wedi'u hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni o actiwariad, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa'r Cyngor Sir yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2016.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddion Disgresiwn	
	2016/17 £000	2017/18 £000	2016/17 £000	2017/18 £000
Rhagdybiaethau Marwolaeth: Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol:				
• Dynion	23.0 blwyddyn	23.1 blwyddyn	23.0 blwyddyn	23.1 blwyddyn
• Merched	25.5 blwyddyn	25.6 blwyddyn	25.5 blwyddyn	25.6 blwyddyn
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:				
• Dynion	25.6 blwyddyn	25.7 blwyddyn		
• Merched	28.2 blwyddyn	28.3 blwyddyn		
Cyfradd Chwyddiant	2.30%	2.10%	2.30%	2.10%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.55%	3.35%		
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.30%	2.20%	2.30%	2.20%
Cyfradd disgowntio buddiannau'r cynllun	2.50%	2.60%	2.50%	2.60%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth budd ddiffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwari a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi eu pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n rhagdybio ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra mae'r holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau ar gyfer dynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai rhagdybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisiâu cyfrifo'r cynllun h.y. ar sail actiwari yn defnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir. Nid yw'r dulliau na math y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiad sensitifrwydd isod wedi eu newid ers y cyfnod blaenorol.

Newid mewn rhagdybiaethau 31 Mawrth 2018	Effaith ar y rhwymedigaeth net yn sgil y Rhwymedigaeth Budd Ddiffiniedig yn y Cynllun £000
Hirhoedledd (cynnydd mewn 1 flwyddyn)	13,023
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%)	11,996
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%)	1,899
Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaeth y cynllun (cynnydd o 0.1%)	(11,782)

Risgiau a'r Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r Gronfa yn cynnal sefyllfaoedd yn defnyddio amrywiaeth o offerynnau ariannol ac felly mae'n agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risgiau credyd a gwrthranol, risg hylifedd, risg marchnad a risg cyfraddau cyfnewid.

Mae gweithdrefnau rheoli risg yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hynny. Mae'r Gronfa Bensiwn yn adolygu ei Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi, a'r Datganiad Strategaeth Ariannu cysylltiedig, yn flynyddol, sy'n gosod polisi'r Gronfa Bensiwn ar faterion

fel y math o fuddsoddiadau i'w dal, y balans rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau, cyfyngiadau buddsoddi a'r ffordd y rheolir risg.

Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod

Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel gyllido 100% dros y 18 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro yn flynyddol. Bydd y prisiad tair blynedd nesaf yn cael ei gwblhau ar 31 March 2019.

Bydd yn rhaid i'r cynllun ystyried newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Dan y Ddeddf, efallai na fydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr, a'r prif gynlluniau pensiwn eraill, yn darparu buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 March 2014. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau, o fewn fframwaith cyffredin, i sefydlu cynlluniau cyfartaledd enillion gyrfa newydd i dalu pensiynau a buddiannau eraill i weision cyhoeddus penodol.

Rhagwelir y bydd yr awdurdod yn talu £16,991k i'r cynllun yn 2018/19.

Cyfartaledd pwysol hyd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 18 mlynedd, 2017/18 (18 mlynedd 2016/17).

35. Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Fel rhan o fabwysiadu Cod Rheoli'r Trysorlys, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/18 ar 14 Chwefror 2017. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol â Chyfarwyddyd Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn egluro y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys, yn seiliedig ar geisio cyfradd uchaf dychweliadau sy'n gyson â lefelau priodol diogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gaiff eu cwmpasu yw:

Risg Credyd: Y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu talu symiau dyledus i'r Cyngor.

Risg Hylifedd: Y posibilrwydd y does gan y Cyngor ddim arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymadau i wneud taliadau.

Risg Marchnad: Y posibilrwydd y gallai colled ariannol godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesuriadau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Risg Credyd**Buddsoddiadau**

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg trwy sicrhau bod buddsoddiadau wedi'u lleoli gyda'r llywodraeth ganolog, awdurdodau eraill neu Fanciau a Chymdeithasau Adeiladu sydd â sgorau credyd digon uchel fel y nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys. Bydd cyfyngiad o £5,000k yn cael

ei roi ar swm yr arian y gellir ei fuddsoddi gyda pharti unigol. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £10,000k am gyfnod hirach na blwyddyn.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw brofiad hanesyddol o ddiffygdalu gan barti arall. Mae'r Cyngor yn defnyddio amryw o ddangosyddion yn ogystal â sgorau credyd i benderfynu pwy i fuddsoddi gyda nhw. Mae'r rhain yn cynnwys gwarantau'r Llywodraeth, cryfder ariannol y Wlad a phrisiau cyfranddaliadau. Bydd y Cyngor a'i ymgynghorydd trysorlys yn parhau i ddadansoddi a monitro'r dangosyddion hyn a datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen i sicrhau diogelwch y symiau a fuddsoddwyd.

Dyledwyr

Cydnabyddir yn yr amgylchedd economaidd presennol y bydd casglu arian dyledus yn anoddach, ond mae'r Awdurdod eisoes wedi buddsoddi mewn methodoleg Rheoli Credyd cryf gyda staff hyfforddedig wedi'u cefnogi gan drefnau effeithiol a ddylai gynnal llif arian a lleihau enghreifftiau o droseddau cytundebol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

		Sgôr Tymor Hir ar adeg Buddsoddi	Sgôr Tymor Hir ar 31/03/2018	Balans a fuddsoddwyd ar 31/03/2018 £000	Dyddiad Ad-dalu			
					0-3 Mis	4-6 Mis	7-9 Mis	10-12 Mis
					£000	£000	£000	£000
Banciau'r DU	Bank of Scotland	A+	A+	4,700	4,700			
	NatWest	BBB+	BBB+	500	500			
	Llywodraeth y DU Swyddfa Rheoli Dyled	AA	AA	7,400	7,400			
	Cyfanswm			12,600	12,600			

Diffiniad		
Graddau Tymor Hir	AA	Ansawdd Credyd Uchel iawn Disgwyliad o risg credyd isel iawn. Gallu cryf iawn i dalu ymrwymadau ariannol sydd ddim yn agored yn sylweddol i ddigwyddiadau rhagweladwy.
	A	Ansawdd Credyd Uchel Disgwyliad o risg credyd isel. Gallu cryf i dalu ymrwymadau ariannol, a all fod yn fwy agored i amodau busnes neu economaidd anffafriol nag sy'n wir ar gyfer graddau uwch.
	BBB	Ansawdd Credyd Da Disgwyliad o risg credyd isel ar hyn o bryd. Gallu digonol i dalu ymrwymadau ariannol, ond mae amodau busnes neu economaidd anffafriol yn fwy tebygol o effeithio ar y gallu hwn.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad at gyfleusterau benthyca gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Does dim risg yn cael ei adnabod na fydd y Cyngor yn gallu dod o hyd i'r arian i dalu ei ymrwymadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gorfod rheoli'r risg na fydd yn agored i ailgyflenwi cyfran helaeth o'r arian a fenthycwyd ar adeg pan mae cyfraddau llog yn anffafriol.

Roedd dadansoddiad aeddfedrydd dyled PWLB a dros dro y Cyngor ar 31 Mawrth 2018 fel a ganlyn:

	Blynyddoedd	31 Mawrth 2017 £000	31 Mawrth 2018 £000	%
Benthyciadau Tymor Byr	Llai na 1 blwyddyn	(4,533)	(30,390)	14.74
Benthyciadau Tymor Hir	Dros 1 dan 6	(21,217)	(19,830)	9.62
	Dros 6 dan 10	(10,713)	(9,800)	4.75
	Dros 10 dan 15	(10,168)	(10,049)	4.87
	Dros 15 dan 20	(29,349)	(35,803)	17.37
	Dros 20 dan 25	(14,796)	(12,370)	6.00
	Dros 25 dan 30	(6,000)	0	0.00
	Dros 30 dan 35	(4,000)	(11,053)	5.36
	Dros 35 dan 40	(69,630)	(71,897)	34.87
	Dros 40 dan 45	(14,320)	(5,000)	2.42
Cyfanswm Benthyca Tymor Hir		(180,193)	(175,802)	85.26
Cyfanswm Benthyca ar Swm Nominal		(184,726)	(206,192)	100.00
Llog a Gronnwyd		(1,451)	(1,454)	
Premiwm a Ohiriwyd		952	941	
Cyfanswm Benthyca ar Gost Amorteiddio		(185,225)	(206,705)	

Risg Marchnad**(1) Risg Cyfradd Llog:**

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n deillio o symudiadau yn y cyfraddau llog. Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw lliniaru'r risgiau hyn trwy osod terfyn uchaf o 40% ar ddyled allanol a all fod yn destun cyfraddau llog amrywiol. Ar 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2018, roedd 100% o'r portffolio dyledion mewn offerynnau cyfradd sefydlog.

Mae buddsoddiadau hefyd yn amodol ar symudiadau mewn cyfraddau llog. Oherwydd bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud ar gyfraddau sefydlog, ond ar gyfer cyfnodau amser byrrach, maent yn fwy agored i symudiadau cyfraddau llog. Mae'n rhaid cydbwysu'r risg yn erbyn y camau gweithredu a gymerwyd i liniaru'r risg credyd.

(2) Risg pris:

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly ni fydd unrhyw risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Cyngor yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris yr offerynnau ariannol).

(3) Risg cyfnewid tramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na dyledion ariannol mewn arian tramor. Felly, nid yw'n agored i risg o golli arian o ganlyniad i symudiadau anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid.

36. Asedau Treftadaeth

Cysoni Gwerth Asedau Treftadaeth sydd gan yr Awdurdod.

	Cofeb Hynafol Cofrestredig £000	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nant Clwyd Y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2017	361	1,122	4,460	2,969	8,912
Ychwanegiadau	0	0	0	0	0
Colledion Amhariad a gydnabyddir yn y Gronfa					
Adbrisió Wrth Gefn	0	0	0	0	0
Dibrisiadau	0	(8)	(33)	(15)	(56)
31 Mawrth 2018	361	1,114	4,427	2,954	8,856

	Cofeb Hynafol Cofrestredig £000	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nant Clwyd Y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad 1 Ebrill 2016	361	1,130	4,493	2,984	8,968
Ychwanegiadau	0	0	0	0	0
Colledion Amhariad a gydnabyddir yn y Gronfa					
Adbrisió Wrth Gefn	0	0	0	0	0
Dibrisiadau	0	(8)	(33)	(15)	(56)
31 Mawrth 2017	361	1,122	4,460	2,969	8,912

Cofebion Hynafol Cofrestredig

Mae Castell Dinas Bran yn gastell canoloesol sy'n sefyll yn uchel ar fryn uwchben tref Llangollen. Mae hefyd yn safle bryngaer o'r Oes Haearn. Mae wedi'i brisio yn ôl ei gost. Mae Archeolegwyr y Sir wedi dosbarthu cofebion rhestredig eraill ac adeiladau rhestredig fel asedau treftadaeth ond nid oes gwerth ariannol wedi'i neilltuo ar gyfer y rhain. Maent yn cynnwys Tŵr Jiwbilî, Moel Fenlli, Moel y Gaer Llanbedr, Caer Drewyn, Tŷ Baddon Rufeinig Prestatyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan CADW neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys.

Regalia Dinesig

Nid yw Regalia Dinesig wedi'i gynnwys ar y fantolen eto oherwydd bod angen rhagor o wybodaeth. Credir bod y rhan fwyaf o'r Regalia Dinesig yn berchen i'r Cyngorau Tref unigol.

Adeiladau Treftadaeth

Mae gan Sir Ddinbych yr adeiladau treftadaeth a ganlyn. Adbrisiwyd yr adeiladau yn 2013/14 fel rhan o raglen adbrisio flynyddol. Nid oes prisiad, ar hyn o bryd, ar gyfer yr arteffactau a gedwir yn yr adeiladau. Mae'r rhan fwyaf o arteffactau yn 'roddion' heb unrhyw gost ac nid yw'r gair 'gwerth' mewn amgueddfeydd yn aml yn cyfeirio at werth ariannol.

Plas Newydd – Adeilad Gradd 2 a Thirwedd Rhestredig*

Mae Plas Newydd yn eiddo dau lawr ar wahân sydd wedi'i adeiladu gyda ffrâm bren a drychiadau brics a charreg wedi'u rendro a'u paentio. Mae gan yr amgueddfa tua 400 o arteffactau gan gynnwys dodrefn, eitemau cymdeithasol a domestig (llyfrau, medalau, cerameg a gwisgoed), effemera a chasgliadau amrywiol.

*Carchar Rhuthun – Carchar Fictoraidd Gradd 2**

Caeodd Carchar Rhuthun fel carchar yn 1916. Prynodd y Cyngor Sir yr adeiladau yn 1926 a'u defnyddio ar gyfer swyddfeydd, archifau'r sir a llyfrgell y dref. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd adeiladau'r carchar fel ffatri arfau, cyn ei dychwelyd i'r Cyngor Sir fel pencadlys Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych. Yn 2002, ailwampwyd y carchar yn helaeth a'i ailagor fel amgueddfa. Mae rhai o'r eitemau yn y casgliad yn rhan annatod o'r adeilad, megis y baddonau cerrig, tra bod eraill yn wrthrychau ac yn archifau sy'n ymwneud â hanes y Carchar.

Nant Clwyd Y Dre – Adeilad Graddfa 1 a Gerddi Rhestredig*

Prynwyd yr eiddo gan Gyngor Sir Clwyd yn 1984. Roedd yn adfail ond roedd rhaglen i adnewyddu a diogelu'r rhannau allanol a gwblhawyd yng nghanol y 1990au. Cafodd yr eiddo ei adnewyddu yn llawn a'i agor i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2007 fel amgueddfa oherwydd ei deilyngdod hanesyddol.

Mae'r eiddo yn cynnwys Tŷ 14eg Ganrif a ehangwyd yn helaeth. Mae'r eiddo yn strwythur rhestredig gradd 1 gyda gardd hanesyddol cofrestredig, gazebo rhestredig gradd 1 a waliau gardd rhestredig. Mae'r mwyafrif o'r eitemau sy'n cael eu harddangos yn atgynhyrchiadau neu o ffynhonnell anhysbys y tu allan i Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae unrhyw wrthrychau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â hanes y tŷ, ac sydd wedi dod i'r amlwg ac wedi bod yn 'roddion' wedi dod i mewn i Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych.

Casgliadau Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych

Mae'r casgliad yn dyddio o'r 1960au pan, cyn bodolaeth gwasanaeth amgueddfa neu dreftadaeth, roedd deunydd yn cael ei gasglu gan amryw o adrannau o'r hen awdurdodau lleol. Mae tua 10,000 o wrthrychau yn y casgliad gan gynnwys hanes cymdeithasol a diwydiannol, archif a deunydd archeolegol.

Amgueddfeydd

Mae tua 1,000 o eitemau yn gysylltiedig â'r hen amgueddfa yn Ninbych a tua 3,000 o eitemau unigol yn gysylltiedig ag Amgueddfa'r Rhyl.

Asedau Treftadaeth Anniriaethol

Mae rhai cofnodion hanesyddol yn cael eu cadw yn Swyddfa Cofnodion Sir Ddinbych, ond mae angen ymchwil pellach ar gyfer perchnogaeth rhai o'r cofnodion.

Arall

Nodwyd fod fan Ysgol Uchradd yn Sir Ddinbych lun gan yr arlunydd Tirlun Cymreig, Syr John "Kiffin" Williams. Amcangyfrif ir ei fod yn werth rhwng £14,000 - £20,000.

Rheoli Casgliadau a Phrasiadau

Mae rheoli casgliadau yn cael ei arwain gan y Cynllun Achrediadau a Strategaeth Amgueddfeydd Cymru. Mae casgliadau treftadaeth teithiol y Sir yn cael eu cadw yn Storfa'r Sir yn Rhuthun. Mae'r rhain yn cynnwys casgliadau archeolegol (fel canfyddiadau Rhufeinig o Faddondy Prestatyn a chasgliadau canoloesol o Gastell Rhuddlan), casgliadau sy'n gysylltiedig â Merched Llangollen, sawl cadair Eisteddfod a chasgliadau hanes cymdeithasol yn ymwneud â'r sir gyfan. Ym mis Awst 2017, cafodd Curadur Amgueddfa â chymwysterau proffesiynol ei recriwtio i gymryd cyfrifoldeb am ofalu am y casgliadau yn Sir Ddinbych, gan ddisodli'r trefniant SLA blaenorol gydag Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan. Mae gwaith y Curadur hyd yn hyn wedi cynnwys cyflwyno Ail-achrediad llawn ar gyfer Plas Newydd, Carchar Rhuthun ac Amgueddfa'r Rhyl, a byddwn yn derbyn canlyniadau ym mis Medi 2018. Mae cynllun i symud yr holl wrthrychau a restrir yn y Casgliad Sir i Gronfa Ddata Rheoli Gwrthrychau Amgueddfa newydd ac i symud, ail-labelu, gwirio cyflwr a chymeryd ffotograff o bob wrthrych yn ei le a bydd yn cychwyn ym mis Mehefin 2018. Mae'r Curadur wedi cwblhau archwiliad o'r holl wrthrychau a gedwir / a ddangosir o fewn pob un o'r safleoedd Treftadaeth a restrir uchod. Mae'r swydd Curadur yn llwyr fodloni gofynion Achrediad Amgueddfeydd.

Benthyciadau

Bydd nifer o eitemau yn cael eu benthycia i ac o'r Gwasanaeth Treftadaeth. Mae gan Plas Newydd ddodrefn sy'n cael ei fenthycia gan Amgueddfa Cenedlaethol Cymru ac mae'r rhain wedi'u cynnwys ym mholisi yswiriant Sir Ddinbych. Mae yna hefyd eitemau ar fenthyciad hirdymor gan Orielau Cyfiawnder yn Nottingham yng Ngharchar Rhuthun. Bydd cofrestr fenthyciadau yn cael ei chadw ym mhrif swyddfa'r amgueddfa.

Caffael a Gwerthu

Mae gan y Gwasanaeth Treftadaeth "Lyfryn Dogfennau a Threfnau Amgueddfa", yn ogystal â'r polisïau eraill sydd wedi'u rhestru yng Nghynllun Ymlaen y Gwasanaeth Treftadaeth. Mae Dogfennaeth a Llawlyfr Gweithdrefn yr Amgueddfa yn dogfennu'r gweithdrefnau ar gyfer caffael a gwaredu pob eitem. Dylai fod gan bob eitem rif unigryw, manylion am berchnogaeth a math o flaendal. Unwaith y bydd eitem ar gael yn erbyn y Polisi Casglu, gwneir penderfyniad i'w dderbyn yn ffurfiol i gasgliad yr amgueddfa neu ddychwelyd i'r perchennog.

Adran 4: Datganiadau Atodol

A Nodiadau Ynglŷn Â'r Datganiadau Atodol

Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai

2016/17 £000		Nodyn	2017/18 £000
	Gwariant		
3,886	Trwsio a chynnal		4,442
2,327	Goruchwylio a rheoli		2,523
12	Rhenti, cyfraddau, trethu a ffioedd eraill		13
4,106	Dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	5	9,350
32	Costau rheoli dyledion		39
84	Symudiad mewn darpariaeth dyledion drwg		96
10,447	Cyfanswm Gwariant		16,463
	Incwm		
(13,605)	Rhenti anheddau (Gros)		(14,158)
(166)	Rhenti nad ydynt ar gyfer anheddau (Gros)		(172)
(13,771)	Cyfanswm incwm		(14,330)
	Gwariant net Gwasanaethau y Cyfrif Refeniw Tai fel sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		2,133
58	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r Gwariant Corfforaethol		58
(3,266)	Gwariant Net y Gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai		2,191
	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a gwariant sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
22	Costau Gweinyddu Pensiwn		24
3,222	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg		3,253
(15)	Incwm llog a buddsoddiadau		(10)
234	Llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau net diffiniedig (ased)	6	225
(2,420)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau eraill a gafwyd		(2,409)
(2,223)	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai		3,274

Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai

2016/17 £000		2017/18 £000	
(2,604)	Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 1 Ebrill		(2,547)
(2,223)	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai.	3,274	
2,137	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau (gweler isod)	(2,993)	
(86)	(Cynnydd) neu leihad net cyn trosglwyddo i neu o'r cronfeydd wrth gefn		281
143	Trosglwyddiadau i neu (o'r) cronfeydd wrth gefn		63
57	(Cynnydd) neu leihad yn y flwyddyn ar y Cyfrif Refeniw Tai		344
(2,547)	Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth		(2,203)

	<u>Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu dan y Rheoliadau:</u> Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf <u>Gwrthdroad eitemau sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>		
(4,106)	Y tâl a godir am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	(9,350)	
2,420	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd	2,409	
0	Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	0	
(971)	Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd wrth waredu neu werthu fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(328)	(7,269)
	<u>Cynnwys eitemau nad ydynt wedi eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</u>		
2,522	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf	2,703	
1,497	Gwariant Cyfalaf y codir tâl yn erbyn Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai	1,347	
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf		
971	Trosglwyddiad enillion gwerthiannau arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai	328	
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		
(2)	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng costau ariannu y codir tâl amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r costau ariannu y codir tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.	0	
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau		
(693)	Gwrthdroad eitemau mewn perthynas â buddiannau ymddeol sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai.	(967)	
493	Cyfraniadau pensiwn gweithiwr yn daladwy yn y flwyddyn	579	
	Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Absenoldeb Cronnol		
6	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng tâl swyddogion y codir amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai ar sail gronnus, a'r tâl y codir amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.	(14)	4,276
2,137	Cyfanswm yr addasiadau		(2,993)

Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Atodol**1. Stoc Tai**

Roedd cyfanswm stoc tai y Cyngor fel a ganlyn:

2016/17 Nifer yr Eiddo		2017/18 Nifer yr Eiddo
1,816	Tai	1,810
977	Fflatiau	954
618	Byngalos	616
3,411	Cyfanswm	3,380

Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd pedwar adeilad dan y Cynllun Hawl i Brynu. Cafodd chwech eu hailddosbarthu, prynwyd pedwar yn ystod y flwyddyn a thynnwyd pump ar hugain o'r stoc dai a byddant yn cael eu dymchwel yn 2018/19.

2. Ôl-ddyledion Rhent

Ar 31 Mawrth 2018, roedd ôl-ddyledion rhent y tenantiaid yn £427k, (£368k ar 31 Mawrth 2017) sy'n cynrychioli 2.60% o'r incwm net rhent sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn. Dilëwyd cyfanswm ôl-ddyledion o £36k yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd cyfraniad i'r ddarpariaeth Dyledion Drwg ac Amheus o £96k yn ystod y flwyddyn a'r balans ar ddiwedd y flwyddyn yw £330k.

3. Derbyniadau Cyfalaf

Bu 4 gwerth Hawl i Brynu (RTB) yn 2017/18. Er bod y "RTB" wedi ei atal, mae ceisiadau cyn-atal wedi eu cwblhau. Yn 2017/18 derbyniwyd £328k o werthiannau "RTB", £ 971k yn 2016/17.

4. Dadansoddiad Gwariant Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai

Yn ystod 2017/18, roedd gwariant cyfalaf o £9,000k ar welliannau i stoc tai y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'r stoc presennol a buddsoddiad mewn safleoedd i hwyluso datblygiad stoc tai ychwanegol. Mae hefyd yn cynnwys caffaeliad stoc tai blaenorol. Mae'r cyfanswm gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan pedair ffynhonnell: Y Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (grant y llywodraeth), derbyniadau cyfalaf (o'r cynllun 'Hawl i Brynu') cyfraniadau refeniw Uniongyrchol y Cyfrif Refeniw Tai a Benthycia Darbodus fel y nodwyd yn y tabl drosodd.

2016/17 £000	Gwariant Cyfalaf Tai	2017/18 £000
7	Rheoli Ansawdd Perfformiad – Prosiect TG	87
1,724	Caffaeliadau	3,007
6,250	Cynlluniau Gwella	5,906
7,981	Gwariant yn y Flwyddyn	9,000
	<i>Wedi'i ariannu gan:</i>	
2,420	Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (Grant)	2,409
243	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol	82
	Cyfraniadau refeniw Cyfrif Refeniw Tai	
1,497	Uniongyrchol	1,647
3,821	Benthyca Darbodus	4,862
7,981	Cyfanswm	9,000

5. Dibrisiant a Cholledion Amhariad ac Ailbrisió Asedau Anghyfredol

Yn unol â'r fframwaith Cyfrifo Adnoddau, bydd ffioedd dibrisiant, amhariad a cholledion adbrisió wedi'u cynnwys yn y Cost Gwasanaethau Net Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r ffi dibrisio yn seiliedig ar werth y Fantolen o'r anheddau ac asedau eraill ac mae'n adlewyrchu'r asedau sy'n bodoli ac a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth, yn hytrach na'r arian a wariwyd arnynt bob blwyddyn. Mae'r amhariad a'r colledion adbrisió yn deillio o ganlyniad i'r broses adbrisió. Mae'r ffi dibrisio, amhariad a cholledion adbrisió'n cael eu cildroi o Gostau Net Gwasanaethau drwy Symudiad ar Ddatganiad CRT. Mae'r cildroad yn dod â phris net cyfalaf i'r CRT yn ôl i bris statudol, sy'n cael ei gyfrifo yn unol ag Penderfyniad Cyffredinol ynghylch Eitem 8 Credyd ac Eitem 8 Debid (Cymru) 2015. Nid yw'r ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac ailbrisió yn cael effaith ar falansau'r Cyfrif Refeniw Tai.

Mae cyfanswm ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac adbrisió ar gyfer 2017/18 yn cael eu dangos isod:

2016/17 £000	Ffioedd Dibrisio a Cholledion Amhariad CRT	2017/18 £000
2,099	Asedau Gweithredol – Anheddau	2,103
63	Asedau Gweithredol - Systemau cyfathrebu	63
2,162	Cyfanswm Dibrisiant	2,166
1,944	Colledion Amhariad ac Adbrisiad	7,184
4,106	Cyfanswm Ffioedd Dibrisio a Cholledion Amhariad CRT	9,350

Yn 2016/17 ail-brisiwyd 100% o'r Tai Cyngor, bydd yr ailbrisiad 100% nesaf yn 2021/22. Yn 2016/17 codwyd £6.1m o golledion amhariad i'r Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn.

6. Trafodion yn Ymwneud â Buddion Ymddeol

Mae cost buddiannau ymddeol wedi'i gydnabod yng nghost net gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Ond, mae'r ffi i'r Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar gyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly bydd gwir gost y buddion ymddeol yn cael eu dileu yn y Datganiad Symudiad Cyfrif Refeniw Tai.

Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad Symudiadau Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn.

2016/17 £000	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	2017/18 £000
437	<u>Cost net y Gwasanaethau</u>	702
0	Costau Gwasanaeth Cyfredol	16
	Costau Gwasanaeth y Gorffennol	
22	<u>Gwariant Gweithredu Net</u>	24
234	Treuliau Gweinyddu Pensiwn	225
	Gwariant Llog Net	
693	Ffi net i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	967
(693)	Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai Dileu ffioedd net ar gyfer buddion ymddeol yn unol â'r Cod	(967)
493	Cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i Gynllun Cronfa Bensiwn Clwyd	579

Adran 5: Adroddiad archwilio arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau
Cyngor Sir Ddinbych

Adran 6: Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017-18

Pam mae angen Datganiad Llywodraethu Blynyddol?

Mae llywodraethu da yng Nghyngor Sir Ddinbych (y Cyngor):

- yn annog penderfyniadau mwy deallus a mwy hirdymor, yn ogystal â defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon.
- yn cryfhau atebolrwydd ar gyfer gwarchod yr adnoddau hynny.
- yn cael eu nodweddu gan graffu cadarn, sy'n rhoi pwysau pwysig ar wella perfformiad y Cyngor a mynd i'r afael â llygredigaeth.
- yn gwella arweinyddiaeth, rheolaeth a goruchwyliaeth sefydliad, gan arwain at ymyraethau mwy effeithiol ac, yn y pen draw, gwell canlyniadau.

I gyflawni ei swyddogaethau eang, rhaid i'r Cyngor fodloni ystod gymhleth o amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn ei wneud yn agored i gyfres o gyfyngiadau a mentrau allanol a mewnol gwahanol i'r rheiny a welir yn y sector preifat, ac mae pob un ohonynt yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethu. Deddfwriaeth allweddol yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu fod y Cyngor yn ystyried y tymor hir wrth wneud penderfyniadau a gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill i wella lles yng Nghymru.

Gan hynny, mae gan randdeiliaid fuddiant mewn materion megis:

- a) a yw'r deilliannau a gynlluniwyd wedi'u darparu ac a yw'r canlyniadau wedi'u cyflawni; ac
- b) a yw hyn wedi'i wneud mewn modd effeithlon, economaidd, effeithiol a theg.

Gan hynny, rhaid i'r Cyngor fod yn hynod dryloyw a darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am bob agwedd ar ei berfformiad. O fewn yr adolygiad llywodraethu blynyddol, cydlynodd y Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol hunanasesiad o'n trefniadau yn erbyn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn ôl y gofynion a amlinellwyd yn CIPFA/Solace 2016 – Nodiadau Canllaw ar gyfer Awdurdodau Cymru. Rhoddodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ystyriaeth i'r canlyniadau a'r egwyddorion sydd angen eu gwella ymhellach a ddangosir yn y Cynllun Gwella ar dudalen 15. Mae crynodeb o ganlyniadau ein hunanasesiadau wedi ei chynnwys yn y ddogfen hon wedi eu rhestru dan egwyddorion allweddol llywodraethu da rydym yn eu defnyddio yn ein fframwaith llywodraethu corfforaethol.

4.6.4 Homelessness Prevention Action Plan Update – The Committee received an information report on the progress of the Homelessness Prevention Action Plan, incorporating actions required by the Denbighshire Homelessness Strategy 2017-21; the Denbighshire Supporting People /

Homelessness Prevention Annual (Commissioning) Plan, and the recommendations of the Welsh Audit Office report: 'How Local Government Manages Demand – Homelessness' (January 2018) to provide assurance that the service had responded to recommendations received from the WAO.

4.7 The Committee also receives regular reports from the Chief Internal Auditor on the progress made against the Internal Audit Plan which is approved by the Committee. Members of the Committee also receive copies of internal audit reports. The reports which have “low” assurance are considered at Committee and the action plans to address any concerns are scrutinised and monitored by the Committee. Audit reports that have been considered, or have had action plans monitored by the Committee during the reporting period include, Corporate Safeguarding, Information Management and IT Management in Schools, Corporate Fleet Management and Public Conveniences.

4.8 The Committee has also received reports reviewing other corporate issues including the Strategic Risk Management Framework and the Council's preparations for the introduction of the General Data Protection Regulation (GDPR)

5. How does the decision contribute to the Corporate Priorities?

The Committee's work in scrutinising the Council's financial affairs, risk management and corporate governance controls assists the Council in delivering the Corporate Priorities.

6. What will it cost and how will it affect other services?

There are no direct costs associated with this report.

7. What are the main conclusions of the Well-being Impact Assessment?

This report contains no proposal but is, rather, a report on the work done by the Committee over the past year. There is therefore no impact assessment required.

8. What consultations have been carried out with Scrutiny and others?

The Committee has received and commented upon a draft of this report.

9. Chief Finance Officer Statement

The Committee is a key part of the Council's governance arrangements. Effective scrutiny of significant financial processes, systems and transactions is a vital element of internal control and provides a level of assurance to the wider Council and other stake holders.

10. What risks are there and is there anything we can do to reduce them?

The risk of not having an effective Corporate Governance or Audit Committee is that there is no oversight of the Council's corporate governance which is a key

component of good performance. Weak corporate governance can contribute to failures in service delivery.

11. Power to make the Decision

There is no decision required as a result of this report.

DRAFT

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol? – **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 587A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gyngor Sir Ddinbych yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi unrhyw oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Y tîm a gyflwynodd y gwaith oedd Charlotte Owen, Paul Goodlad a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddwyd Huw Rees.

Cynnwys

Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn dda i heriau cyfredol, ond gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar gynnydd yn y dyfodol. Y mae lle hefyd i aelodau'r cabinet gyfrannu'n fwy gweithredol at drafodaethau craffu.

Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 6

Mae'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer craffu, ond gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar allu'r swyddogaeth graffu i ymdrin â heriau yn y dyfodol 7

Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu wedi'i chynllunio'n dda, yn mabwysiadu ymagwedd gytbwys at graffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, ac yn datblygu dulliau mwy effeithiol o gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn gwaith craffu 9

Mae'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y swyddogaeth graffu, ond mae lle i aelodau cabinet fod â rhan fwy gweithredol mewn trafodaethau 10

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol 13

Atodiad 2 – argymhellion o'r adroddiad ar astudiaeth gwella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 15

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Bu'r adolygiad hwn yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw swyddogaethau craffu pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Buom yn ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r modd y mae cynghorau'n dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa'r cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r newid posibl tuag at fwy o waith rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.
- 2 Yn rhan o'r adolygiad hwn, buom hefyd yn adolygu cynnydd y cynghorau wrth ymdrin ag argymhellion ein Hastudiaeth Gwella Genedlaethol gynharach **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler **Atodiad 2**). Buom hefyd ar drywydd y cynigion ar gyfer gwella a oedd yn berthnasol i'r swyddogaeth graffu, ac a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion a wnaed i gynghorau yn rhan o'r adolygiadau a gynhaliwyd gennym yn 2016-17, sef Cynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Penderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau.
- 3 Nod ein hadolygiad oedd:
 - nodi ffyrdd o ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu, yn sail ar gyfer rhannu arferion a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
 - rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau'r presennol a'r dyfodol;
 - helpu i ymwreiddio trefniadau craffu effeithiol gan aelodau etholedig o gychwyn y cylch etholiadol newydd; a
 - rhoi syniad o'r graddau y mae cynghorau wedi llwyddo i ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.
- 4 Er mwyn llywio ein canfyddiadau, seiliwyd ein dull adolygu ar Canlyniadau a Nodweddion Trosolwg a Chraffu Effeithiol mewn Llywodraeth Leol. Datblygwyd y rhain gan randdeiliaid craffu yng Nghymru, a chytuno arnynt, yn dilyn ein Hastudiaeth Gwella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**
- 5 Yn ystod mis Ionawr 2018, buom yn adolygu dogfennau, yn cyfweid â swyddogion allweddol ac yn cynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr er mwyn deall eu safbwyntiau ynghylch trefniadau craffu cyfredol Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor). Yn benodol, buom yn adolygu ymdriniaeth y Cyngor â'r heriau a nodir uchod, a'r modd y mae'n bwriadu ymateb iddynt.
- 6 Buom yn arsylwi sampl o gyfarfodydd craffu ac yn adolygu dogfennau a oedd yn berthnasol i'r cyfarfodydd hynny ac a ddarparwyd i'r aelodau i gefnogi eu rôl craffu, fel adroddiadau a chyflwyniadau,
- 7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn dda i heriau cyfredol, ond y gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar gynnydd yn y dyfodol. Y mae lle hefyd i aelodau'r cabinet gyfrannu'n fwy gweithredol at drafodaethau craffu. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- a. mae'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer craffu, ond gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar allu'r swyddogaeth graffu i ymdrin â heriau yn y dyfodol;
- b. mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu wedi'i chynllunio'n dda, yn mabwysiadu ymagwedd gytbwys at graffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, ac yn datblygu dulliau mwy effeithiol o gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn gwaith craffu; ac
- c. mae'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y swyddogaeth graffu, ond mae lle i aelodau'r cabinet gymryd rhan fwy gweithredol mewn trafodaethau craffu.

Cynigion ar gyfer gwella

- 8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion o ran sut y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, er mwyn iddo fod mewn sefyllfa well i wynebu heriau cyfredol a heriau'r dyfodol.

Dangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Cynigion ar gyfer gwella
C1 Adolygu pa mor ddigonol yw'r trefniadau cefnogi, o ran maint a natur y gefnogaeth y gallai fod ar bwyllgorau trosolwg a chraffu ei hangen.
C2 Dylai aelodau Cabinet gyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ac ymateb i gwestiynau oddi wrth aelodau pwyllgor trosolwg a chraffu ynghylch polisiau a phenderfyniadau'r Cyngor, yn unol â chanllawiau statudol ¹ .

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Canllawiau i Gyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen 2006**, Gorffennaf 2006, Paragraff 2.4.4

Adroddiad manwl

Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn dda i heriau cyfredol, ond gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar gynnydd yn y dyfodol. Y mae lle hefyd i aelodau'r Cabinet gyfrannu'n fwy gweithredol at drafodaethau craffu

Mae'r Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer craffu, ond gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar allu'r swyddogaeth graffu i ymdrin â heriau yn y dyfodol

- 9 Mae'r Cyngor yn rhoi diffiniad clir o rôl trosolwg a chraffu yn ei gyfansoddiad ac yn ei adroddiadau trosolwg a chraffu blynyddol. Yn nisgrifiadau o rolau cadeiryddion ac aelodau pwyllgor, nodir yn glir beth yw cyfrifoldebau cynghorwyr o ran y swyddogaeth trosolwg a chraffu.
- 10 Mae gan y Cyngor dri phwyllgor trosolwg a chraffu a gefnogir gan grwpiau gorchwyl a gorffen pan fo angen. Bydd aelodau pwyllgor trosolwg a chraffu hefyd yn cyflawni gwaith craffu y tu allan i'r strwythur pwyllgorau ffurfiol. Er enghraifft, bydd cynrychiolwyr o bob pwyllgor trosolwg a chraffu yn eistedd ar grwpiau herio perfformiad gwasanaethau, gan gymryd rhan weithredol yn y gwaith o adolygu a herio perfformiad gwasanaethau. Bydd aelodau pwyllgor trosolwg a chraffu hefyd yn helpu i ddatblygu a monitro polisiau'r Cyngor drwy eu rolau ar grwpiau mewnol a byrddau rhaglen amrywiol. Mae'r gweithgareddau llai ffurfiol hyn yn ategu ac yn cyfrannu at waith craffu ffurfiol, gan fod aelodau pwyllgor yn rhoi adborth rheolaidd mewn cyfarfodydd pwyllgor. Maent hefyd yn helpu i godi proffil a chynyddu gwerth craffu ymhlith swyddogion, gan roi cipolwg gwell i aelodau pwyllgor o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.
- 11 Mae swyddogion a chynghorwyr o'r farn fod y swyddogaeth trosolwg a chraffu yn effeithiol, a bod iddi rôl werthfawr yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor. Dywedodd aelodau'r Cabinet wrthym fod trosolwg a chraffu yn helpu i gryfhau'r broses benderfynu o fewn y Cyngor drwy roi mewnwelediad a her ddefnyddiol. Roedd aelodau pwyllgor trosolwg a chraffu hefyd yn teimlo bod eraill yn gwerthfawrogi eu rôl, a gallai aelodau'r cabinet ac aelodau pwyllgor craffu gyfeirio at amryw o enghreifftiau lle cafwyd gwerth ychwanegol yn sgil craffu.
- 12 Mae'r Cyngor yn darparu rhaglen gynefino gynhwysfawr i gynghorwyr newydd ac mae ganddo raglen datblygu'r aelodau er mwyn darparu hyfforddiant parhaus. Darperir yr hyfforddiant gan hyfforddwyr mewnol ac allanol, er enghraifft Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn rhan o hyfforddiant cynefino 2017, derbyniodd cynghorwyr sesiwn ragarweiniol ar graffu, yn ogystal â hyfforddiant ar gadeirio pwyllgorau trosolwg a chraffu. Cynhaliodd y Cyngor gwrs hyfforddi ar archwilio data addysg yn gynnar yn 2018, ac y mae wedi trefnu sesiwn ar gwestiynau craffu effeithiol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae agweddau'r

cynghorwyr at yr hyfforddiant yn gadarnhaol, ond ni chafwyd presenoldeb da ym mhob un o'r sesiynau.

- 13 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei ddarpariaeth hyfforddi yn sgil heriau allweddol yn y dyfodol. Er enghraifft, y mae wedi cynnal amryw o sesiynau codi ymwybyddiaeth gyda chynghorwyr ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a sut i graffu mewn modd sy'n ystyriol o'r Ddeddf. Mae'r Cyngor wedi datblygu offeryn asesu effaith llesiant, a chynghorwyr wedi derbyn hyfforddiant arno. Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd eang o'r offeryn, ac wedi diweddarau'r templed ar gyfer adroddiadau craffu i gynnwys prif gasgliadau unrhyw asesiad effaith llesiant. Yn ogystal â hyn, mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi bod yn monitro ymdrechion y Cyngor i ymwreiddio'r nodau a'r egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 14 Fodd bynnag, bu'r hyfforddiant i gynghorwyr ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn brin, a byddai aelodau craffu yn elwa ar hyfforddiant i'w paratoi i graffu ar waith rhanbarthol. Roedd y rhaglen gynefino cynghorwyr yn 2017 yn cynnwys sesiwn ar rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ond hyd yma, nid oes unrhyw hyfforddiant wedi cael ei gynnal sy'n canolbwyntio ar graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn llunio papur opsiynau ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn archwilio trefniadau yn y dyfodol i graffu ar Gyd-fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Bydd y papur yn cael ei gyflwyno gerbron y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn y flwyddyn ariannol newydd. Ar ôl cytuno ar y trefniadau, mae'r Cyngor yn bwriadu darparu hyfforddiant i gynghorwyr ar graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn y cyfamser, pwyllgor craffu Partneriaethau y Cyngor sydd yn gyfrifol am graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 15 Yn dilyn peilot llwyddiannus, mae pob un o'r tri phwyllgor trosolwg a chraffu wedi mabwysiadu sesiynau briffio cyn cyfarfod pwyllgor. Mae'r cyn-gyfarfodydd yn helpu aelodau pwyllgor i baratoi am y cyfarfod pwyllgor ac i ddatblygu strategaethau gofyn cwestiynau. Roedd swyddogion ac aelodau'r pwyllgor yn cefnogi'r trefniadau, a dywedodd cadeiryddion craffu eu bod wedi helpu i wella ansawdd y cwestiynau a chael gwared â'r ffocws ar wardiau neilltuol.
- 16 Roedd aelodau pwyllgor yn canmol y gefnogaeth yr oeddent wedi'i chael gan swyddogion. Er hynny, dim ond un Cydgysylltydd Craffu sydd yn gweithio yn y Cyngor. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i gyflawni gwaith ymchwil a dadansoddi annibynnol. Mae'r Cydgysylltydd Craffu yn cefnogi'r tri phwyllgor a hefyd yn rhoi cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gorchwyl a gorffen craffu. Ategir y gefnogaeth hon gan swyddogion o wasanaethau perthnasol, sydd hefyd yn cefnogi grwpiau gorchwyl a gorffen.
- 17 Nid yw eto'n glir sut y bydd newid y drefn ar gyfer craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn effeithio ar gapasiti cyfredol y Cyngor i gefnogi craffu. Ond bydd asesiad o'r angen am gefnogaeth yn cael ei gynnwys yn rhan o'r papur opsiynau ar gyfer craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi asesu lefel y gefnogaeth graffu sydd ei hangen wrth bennu ei gyllideb. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd heriau craffu rhanbarthol yn y dyfodol, a chynlluniau'r Cyngor i gynyddu ffocws y swyddogaeth graffu ar ymgysylltu â'r cyhoedd, yn rhoi mwy o bwysau ar y capasiti cefnogi presennol wrth symud ymlaen. Mae angen i'r Cyngor felly

ystyried a yw maint a natur y gefnogaeth graffu sy'n bodoli eisoes yn ddigonol i wynebu heriau'r dyfodol.

Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu wedi'i chynllunio'n dda, yn mabwysiadu ymagwedd gytbwys at graffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, ac yn datblygu dulliau mwy effeithiol o gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn gwaith craffu

- 18 Mae gan bob pwyllgor trosolwg a chraffu flaenraglen waith fanwl, ac mae Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu a diweddarau'r rhaglen. Mae Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu yn sicrhau bod gwaith craffu yn gysylltiedig â blaenraglen waith y Cabinet, a hefyd yn adolygu ffurflenni cais am destun craffu y gall Cynghorwyr, swyddogion neu aelodau o'r cyhoedd eu cyflwyno. Mae cadeiryddion trosolwg a chraffu yn teimlo bod aelodau'r pwyllgor yn berchen ar y blaenraglenni gwaith ac yn arwain y gwaith o'u datblygu. Er enghraifft, mae nifer y ceisiadau am destun craffu a gyflwynir gan yr aelodau ar gynnydd. Mae'r flaenraglen waith yn eitem sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod pwyllgor, ac yr oedd yn creu trafodaeth resymol yn y cyfarfodydd y buom yn eu harsylwi. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am y rhaglen waith hefyd yn y cyfarfodydd hyn, ac anogwyd aelodau pwyllgor hefyd i gyflwyno ffurflenni cais am destun.
- 19 Mae Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu yn dilyn proses strwythuredig i hidlo a threfnu ceisiadau am destunau craffu yn ôl blaenoriaeth. Caiff testunau eu hychwanegu at y rhaglen waith os ydynt o ddi-ddordeb i'r cyhoedd, os ydynt yn gysylltiedig â Blaenoriaethau corfforaethol, neu os oes cyfle amlwg i effeithio ar y sefyllfa drwy graffu. Ar ôl i'r grŵp gymeradwyo testun, bydd Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu yn ystyried yr hyn y bwriedir ei gyflawni ac yn penderfynu ar gwmpas, ehangder a dull y gweithgarwch craffu. Bydd testunau nad ydynt yn cyrraedd yr agenda yn cael eu cyfeirio i rywle arall, er enghraifft i Grwpiau Ardal yr Aelodau², neu bydd swyddog perthnasol yn mynd ar eu trywydd.
- 20 Mae pwyllgorau trosolwg a chraffu yn cyflawni eu nodau rhagnodedig mewn modd cytbwys, gan gynnwys cymysgedd o graffu cyn ac ar ôl penderfyniadau. Mae'r Cyngor yn ffafrio craffu cyn penderfynu yn achos materion cynhennus, gan fod hynny o gymorth i sicrhau bod ystod ehangach o safbwyntiau yn cael eu hystyried wrth ddod i benderfyniad. Bydd pwyllgorau trosolwg a chraffu yn defnyddio craffu ar ôl penderfyniadau i fonitro gweithrediad polisiâu ac asesu effaith toriadau cyllidebol.
- 21 Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod pwyllgorau trosolwg a chraffu yn ymwybodol o waith archwilio, arolygu a rheoleiddio. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor

² Mae gan y Cyngor chwech o Grwpiau Ardal yr Aelodau (GAA) sydd yn galluogi cynghorwyr i gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion lleol ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Gellir trafod materion o natur leol nad ydynt yn addas i'w trafod mewn pwyllgorau craffu yng nghyfarfodydd y GAA yn lle hynny. I'r gwrthwyneb, gall materion a godir yng nghyfarfodydd y GAA a allai fod yn berthnasol i'r holl sir gyfrannu at raglenni gwaith y pwyllgorau craffu.

Llywodraethu Corfforaethol yn eistedd ar Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu. Mae'r trefniant hwn yn hyrwyddo sgwrs a llif gwybodaeth reolaidd rhwng swyddogaethau craffu a llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried adroddiadau archwilio ac arolygu yn rheolaidd, ac mae adroddiadau cenedlaethol Archwilydd Cyffredinol Cymru ac adroddiadau gan arolygiaethau eraill hefyd yn cael eu hadrodd gerbron pwyllgorau trosolwg a chraffu ar gais y swyddogion.

- 22 Ar hyn o bryd, strwythur pwyllgorau trosolwg a chraffu presennol y Cyngor sydd yn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ym mis Mawrth a mis Rhagfyr 2017, bu'r pwyllgor craffu Partneriaethau yn ystyried asesiad anghenion llesiant a chynllun llesiant drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn bwriadu cysylltu ag aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bob blwyddyn i ganfod a ydynt yn bwriadu cyflwyno neu ymgynghori ar unrhyw gynlluniau neu strategaethau y flwyddyn honno. Bydd Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu wedyn yn penderfynu a ddylid cynnwys y cynlluniau neu'r strategaethau hynny ym mlaenraglenni gwaith y pwyllgorau. Bydd y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer craffu ar Gyd-Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn dod yn gliriach ym mis Mai 2018, ar ôl ystyried y papur opsiynau y cyfeiriwyd ato uchod.
- 23 At ei gilydd roedd y cyfarfodydd pwyllgor y buom yn eu harsylwi yn cael eu cynnal yn dda, ac roedd y rhan fwyaf o'r aelodau pwyllgor yn cyfrannu at y trafodaethau. Roedd y Cyngor yn pryderu ynghylch lefelau presenoldeb craffu o dan y weinyddiaeth flaenorol, ond mae'n dda gweld bod presenoldeb aelodau pwyllgor wedi gwella ers mis Mai 2017. Yn ein hadolygiad, nodwyd mai tua 76% oedd y presenoldeb cyfartalog ar draws y tri phwyllgor - cynnydd o gymharu â'r 61% a gafwyd yn y chwe mis cyn hynny. Mae lefel yr her mewn cyfarfodydd yn amrywio, ond gwelsom enghreifftiau o ddadl gadarn a deallus. Roedd effeithiolrwydd y cadeirio o gymorth i sicrhau ffocws wrth ddadlau a chwestiynu, a bod hynny'n arwain at gasgliadau clir. Dywedodd aelodau pwyllgor craffu llai profiadol eu bod wedi elwa ar y cyn-gyfarfodydd a gyflwynwyd yn ddiweddar, sydd o gymorth i fireinio ymholiadau yn barod am y prif gyfarfod. Bydd cyfarfodydd pwyllgor fel arfer yn cynnwys rhwng dwy a phedair prif eitem ar yr agenda; mae hyn yn adlewyrchu polisi'r Cyngor o gyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir yn unrhyw un o gyfarfodydd pwyllgor trosolwg a chraffu i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor ar ei raglen waith ei hun. Cyflwynwyd y polisi hwn er mwyn hwyluso dadl fanwl ac effeithiol ar bob testun.
- 24 Bydd pwyllgorau trosolwg a chraffu yn derbyn y rhan fwyaf o'u gwybodaeth o adroddiadau gan swyddogion. Mae'r adroddiadau a gyflwynir gerbron pwyllgorau craffu yn gynhwysfawr, ond dywedodd rhai o'r aelodau fod rhai o'r adroddiadau'n gallu bod yn faith, a'i bod yn cymryd amser hir i'w darllen. Bydd pwyllgorau craffu hefyd yn gwneud defnydd o ffynonellau eraill o dystiolaeth. Er enghraifft, bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn cyflawni gwaith craffu manylach ac yn llunio canfyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda, sy'n cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at ddatblygu polisi. Bydd cyrff allanol hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd craffu i ddarparu gwybodaeth neu i ymateb i bryderon neu ymholiadau a godir gan yr aelodau; mae Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a British Telecom ymhlith yr enghreifftiau diweddar.
- 25 Mae'r Cyngor yn ceisio cynnwys y cyhoedd mewn gweithgarwch craffu ac yn ymroi'n frwd i ganfod ffyrdd i wella ymgysylltiad y cyhoedd. Gall y cyhoedd gael gwybodaeth ynghylch sut

i gymryd rhan mewn gwaith craffu ar wefan ac yn adroddiad craffu blynyddol y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio taflen ddefnyddiol i aelodau o'r cyhoedd sydd yn dod i gyfarfodydd pwyllgor craffu. Mae'r daflen yn esbonio rôl craffu a sut y gall preswylwyr gymryd rhan, ac yn cynnwys ffurflen cais am destun craffu. Mae agendâu cyfarfodydd pwyllgor craffu ar gael ar wefan y Cyngor ac yn cael eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd llawer o gynghorau'n gwe-ddarlledu rhai o'u cyfarfodydd pwyllgor craffu, neu'r holl gyfarfodydd craffu, ac yn darparu fidio ohonynt i'w wyllo ar-lein; dim ond yn ddiweddar y mae'r Cyngor wedi gwneud hynny. Yn ogystal ag arddangos agwedd agored a thryloywder, bydd hi'n haws i'r cyhoedd edrych ar gyfarfodydd os ydynt yn cael eu gwe-ddarlledu. Gan hynny, mae'n galonogol bod y Cyngor wedi dechrau gwe-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgor craffu dethol, a ystyriwyd ganddo'n gyfarfodydd yr oedd gan y cyhoedd ddiddordeb mawr ynddynt, ym mis Mawrth 2018. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i we-ddarlledu'r holl gyfarfodydd pwyllgor hyd yma.

- 26 Dywedodd y Cyngor fod diddordeb y cyhoedd mewn gwaith craffu ar gynnydd. Yn 2016-17, yr oedd mwy o aelodau'r cyhoedd yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor craffu nag yn y blynyddoedd cynt, a hynny'n rhannol yn sgil amryw o faterion uchel eu proffil a oedd wedi'u cynnwys ar agendâu'r pwyllgorau. Gwahoddwyd y cyhoedd hefyd i roi tystiolaeth yn sail ar gyfer adolygiad grŵp gorchwyl a gorffen craffu o effaith toriadau diweddar i'r gyllideb. Serch hynny, mae aelodau a swyddogion yn cydnabod y gallent wneud mwy i wella ymgysylltiad y cyhoedd â'r broses graffu. Mae Grŵp y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu yn archwilio ffyrdd i godi proffil craffu ymhlith y cyhoedd. Byddant yn gweithio gyda Swyddog Ymgysylltu Cyhoeddus newydd y Cyngor yn 2018 i ddatblygu ymagwedd newydd at ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y swyddogaeth graffu, ond mae lle i aelodau cabinet fod â rhan fwy gweithredol mewn trafodaethau craffu

- 27 Mae aelodau pwyllgorau craffu yn herio yn rheolaidd mewn cyfarfodydd pwyllgor. Er bod aelodau cabinet yn bresennol mewn cyfarfodydd craffu ac yn cyflwyno adroddiadau ynddynt yn rheolaidd, swyddogion sydd fel arfer yn esbonio manylion adroddiadau ac yn ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgor. Er bod deiliaid portffolio profiadol yn aml yn chwarae rhan fwy gweithgar wrth gyflwyno gwybodaeth ac ymateb i her, mae lle i fabwysiadu'r dull hwn yn mewn modd mwy cyson, yn unol â chanllawiau statudol³.

³ "Mae'r pwyllgorau trosolygu a chraffu yn gallu ei gwneud yn ofynnol i swyddogion fod yn bresennol i ateb cwestiynau am gyflwyno swyddogaethau gweithredol neu swyddogaethau eraill a'i drafod. Dylai'r weithrediaeth a'r pwyllgorau trosolygu a chraffu gadw mewn cof bob amser mai mater i'r weithrediaeth etholedig yw ateb cwestiynau am ei pholisïau a'i phenderfyniadau. Pan fydd swyddogion yn ymddangos i ateb cwestiynau, dylai eu cyfraniad hwythau gael ei gyfyngu cyn belled â phosibl i gwestiynau ynghylch ffeithiau ac esboniadau ynghylch polisïau a phenderfyniadau...." Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen 2006, Gorffennaf 2006, Paragraff 2.4.4

- 28 Cawsom enghreifftiau gan yr aelodau a'r swyddogion lle'r oedd craffu wedi cynnig ffyrdd i ddatrys problemau cydnabyddedig. Cyfeiriwyd at waith grwpiau gorchwyl a gorffen craffu, gan ddweud bod y gwaith hwnnw'n arbennig o werthfawr. Un o'r enghreifftiau diweddar oedd adolygiad gan grŵp gorchwyl a gorffen o wasanaethau gofal mewnol y Cyngor. Yn dilyn adolygiad manwl o'r gwasanaeth, argymhellodd y grŵp y dylid comisiynu gwasanaethau gofal oddi wrth bartneriaid allanol. Er i'r argymhellion gael eu derbyn, gofynnwyd i'r grŵp wneud gwaith pellach cyn eu gweithredu. Dywedodd yr Aelodau wrthym hefyd am effaith trosolwg a chraffu ar gynigion i godi tâl gan ddeiliaid bathodynau glas sy'n defnyddio meysydd parcio'r Cyngor. Addaswyd y cynigion yn ddiweddarach i roi mwy o amser parcio i ddeiliaid bathodynau, yn dilyn mewnbwn gan y pwyllgor trosolwg a chraffu.
- 29 Mae'r Cyngor yn ymroi i wella ei swyddogaeth graffu ac yn cynnal gwerthusiad rheolaidd o effeithiolrwydd y swyddogaeth honno. Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg blynyddol yn seiliedig ar nodweddion craffu effeithiol. Defnyddir y canlyniadau'n sail ar gyfer adroddiad craffu blynyddol y Cyngor. Bydd unrhyw faterion a amlygir wedyn yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu gwella craffu⁴. Mae'r cynllun hwn yn amlygu'r camau a gymerwyd i wella'r swyddogaeth graffu drwy fonitro'n rheolaidd. Mae gwaith i gryfhau ymgysylltu â'r cyhoedd ac i ddatblygu mwy ar drefniadau i graffu ar gyrff allanol, fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi'i drefnu ar gyfer gwanwyn 2018.
- 30 Dangosai swyddogion a chynghorwyr ymwybyddiaeth o'r heriau sydd o flaen y swyddogaeth graffu yn y dyfodol. Roeddent yn disgrifio gostyngiadau parhaus mewn gwariant cyhoeddus a ffocws cynyddol ar waith rhanbarthol fel heriau allweddol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor o'r farn fod ei strwythur craffu cyfredol yn ddigon hyblyg i wynebu'r heriau hyn yn y dyfodol. Er enghraifft, wrth ddisgwyl canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar graffu'n rhanbarthol, mae'n parhau i ystyried sut y gellid mabwysiadu ymagwedd ar cyd (â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) er mwyn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

⁴ Datblygodd y Cyngor y cynllun gweithredu yn wreiddiol mewn ymateb i'n hastudiaeth gwella genedlaethol yn 2014, Craffu Da? Cwestiwn Da!

Atodiad 1

Canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol

Dangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol

Canlyniadau	Nodweddion
Wrth graffu'n dda, beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth fyddai'r nodweddion? Sut y gallem ei adnabod?
1. Mae atebolrwydd democrataidd yn sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus. 'Gwasanaethau Gwell'	Yr Amgylchedd i) Mae rôl y swyddogaeth graffu wedi'i diffinio'n glir ac yn cael ei gwerthfawrogi fel rhan o drefniadau'r cyngor ar gyfer gwella. ii) Ceir swyddogion neilltuol i gefnogi craffu, sy'n gallu cyflawni gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, a darparu dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i aelodau Craffu. Ymarfer iii) Mae ymholiadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol, yn gadarn o ran methodoleg ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau. Effaith iv) Yn rhan o'r broses trosolwg a chraffu bydd penderfynwyr a darparwyr gwasanaeth yn cael eu herio'n rheolaidd ar sail tystiolaeth. v) Bydd craffu yn cynnig ffyrdd ymarferol o ddatrys problemau cydnabyddedig sydd yn seiliedig ar dystiolaeth dda.

Canlyniadau	Nodweddion
Wrth graffu'n dda, beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni?	Beth fyddai'r nodweddion? Sut y gallem ei adnabod?
<p>2. Gwneir penderfyniadau democrataidd mewn modd atebol, cynhwysol a chadarn. 'Gwell penderfyniadau'</p>	<p>Yr Amgylchedd</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Mae cynghorwyr craffu yn derbyn y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol. ii) Derbynnir cefnogaeth effeithiol ar gyfer y broses yn aml gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, sydd yn sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i ddibenion craffu o ansawdd uchel, a'i bod yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson. <p>Ymarfer</p> <ul style="list-style-type: none"> iii) Arweinir y swyddogaeth graffu gan yr Aelodau, ac mae ganddi berchnogaeth ar ei rhaglen waith, gan ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a chyrrff rheoleiddio. Y mae'n taro cydbwysedd rhwng rhoi'r flaenoriaeth i bryderon yn y gymuned a materion ac iddynt risg a phwysigrwydd strategol. iv) Gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni gwaith craffu. v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, wedi'u cadeirio'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. <p>Effaith</p> <ul style="list-style-type: none"> vi) Bydd Aelodau Anweithredol yn defnyddio tystiolaeth i sicrhau bod penderfyniadau'r Weithrediaeth yn gytbwys. vii) Mae penderfynwyr yn rhoi cyfrif yn gyhoeddus am eu cyfrifoldebau portffolio mewn pwyllgorau craffu.
<p>3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn dadl ddemocrataidd ynghylch cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn y presennol a'r dyfodol.</p>	<p>Yr Amgylchedd</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod bod craffu yn ffordd bwysig i'r cyngor ymgysylltu â'r gymuned. <p>Ymarfer</p> <ul style="list-style-type: none"> ii) Mae craffu yn cynnwys cyfathrebu effeithiol i godi ymwybyddiaeth ynghylch atebolrwydd democrataidd, ac annog pobl i gymryd rhan yn hynny. iii) Mae craffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol, ac yn ymdrin yn effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiwn a gwrthdaro. iv) Mae craffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol. <p>Effaith</p> <ul style="list-style-type: none"> v) Mae trosolwg a chraffu yn ei gwneud hi'n bosibl i glywed 'llais' pobl leol a chymunedau ar draws yr ardal yn rhan o'r prosesau penderfynu a llunio polisi.

Atodiad 2

Argymhellion o'r adroddiad ar astudiaeth gwella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014)

Dangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Gwella Craffu

Argymhelliad	Partneriaid Cyfrifol
A1 Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses craffu.	Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
A2 Sicrhau bod aelodau craffu, a chadeiryddion craffu yn benodol, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol.	Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
A3 Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn: <ul style="list-style-type: none">• rhoi rhesymeg glir dros ddewis pynciau;• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad a ddymunir; a• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r Cyngor.	Cynghorau
A4 Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol.	Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn
A5 Lle bo'n briodol, sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbwn gweithgarwch craffu wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith.	Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn

Argymhelliad	Partneriaid Cyfrifol
<p>A6 Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau.</p>	<p>Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</p>
<p>A7 Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru.</p>	<p>Cyngor</p>
<p>A8 Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru.</p>	<p>Cynghorau</p>
<p>A9 Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd er mwyn gwella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.</p>	<p>Cynghorau</p>

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

26 MEDI 2018		Eitemau Sefydlog	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd
		Adroddiadau	
	5	Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon	Pennaeth Cyllid – Richard Weigh
	6	SAC – Ymholiadau Archwilio Blynnyddol	Pennaeth Cyllid - Richard Weigh / SAC
Tudalen 263	7	Adroddiad diweddaraf – Cyfleustodau Cyhoeddus	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	8	Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynnyddol	Pennaeth Iechyd a Diogelwch - Gerry Lapington
	9	Asesiad Allanol – Prif Weithredwr Archwilio Cyngor Sir Gwynedd – Adroddiad a Chynllun Gwella	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	10	Adroddiad Gwella Blynnyddol SAC	SAC / Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio – Alan Smith
	11	Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ddefnyddwyr Gwasanaeth	SAC/ Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith
21 TACHWEDD 2018		Eitemau Sefydlog	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

		Adroddiadau	
	5	Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd / Gary Williams
	6	RIPA Blynyddol (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000)	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd / Gary Williams
	7	Trosolwg o Fframwaith Darparwr Gwasanaeth Amgen	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd / Gary Williams / Pennaeth Cyllid - Richard Weigh/ Nicola Kneale
	8	Adroddiad blynyddol ar y Cyfansoddiad	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd - Gary Williams / Pennaeth Archwilio Mewnol – Lisa Lovegrove
23 IONAWR 2019		Eitemau Sefydlog	
Rhaglen 264	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd
		Adroddiadau	
	5	Adroddiad Diweddar – Uned Caffael ar y cyd	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
06 MAWRTH 2019		Eitemau Sefydlog	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd
		Adroddiadau	

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

10 EBRILL 2019		Eitemau Sefydlog	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd
		Adroddiadau	
05 MEHEFIN 2019		Eitemau Sefydlog	
Tudalen 265	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd
		Adroddiadau	
10 GORFFENN AF 2019		Eitemau Sefydlog	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

		Adroddiadau	
	5	Datganiad Cyfrifon Drafft	Pennaeth Cyllid – Richard Weigh
	6	Rheoli Trysorlys	Pennaeth Cyllid – Richard Weigh
	7	Adroddiad Blynyddol ar y Cyfansoddiad	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd - Gary Williams / Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	8	Adroddiad SIRO Blynyddol	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith
	9	Adroddiad gwelliant blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru	SAC/Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith
41 MEDI 2019		Eitemau Sefydlog	
Ffynhoniau 266	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd
		Adroddiadau	
	5	Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon	Pennaeth Cyllid – Richard Weigh
	6	Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol	Pennaeth Iechyd a Diogelwch - Gerry Lapington
20 TACHWEDD 2019		Eitemau Sefydlog	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio (os oes rhai)	Cydlynnydd Archwilio - Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd (os oes rhai)	Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio - Alan Smith, Nicola Kneale
	3	Diweddariad Archwilio Mewnol	Prif Archwilydd Mewnol – Lisa Lovegrove
	4	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	Gwasanaethau Democrataidd

Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

		Adroddiadau	
	5	Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd / Gary Williams
	6	RIPA Blynyddol (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000)	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd / Gary Williams

DS Nid yw union ddyddiad cyhoeddi adroddiadau achlysurol gan er enghraifft Swyddfa Archwilio Cymru neu Adroddiadau Blynyddol gan yr Ombwdsmon yn hysbys ar hyn o bryd. Bydd dyddiad cyfarfod yn cael ei neilltuo ar eu cyfer cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Diwygiwyd 02.07.2018 SJ

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag